



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd
Addysgu Powys
Powys Teaching
Health Board

Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb 2024-2025

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Cynnwys

Rhagair.....	4
Ardal Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	6
Amrywiaeth ym Mhowys	6
Gweithgarwch yn ystod 2024-2025	8
Gwella gyda'n Gilydd	8
Tîm Iechyd y Cyhoedd Powys	15
Gwasanaeth Cyfnewid Fideo Iaith Arwyddion Prydain SignLive.....	25
Cyfieithu ar y pryd Fideo Iaith Dramor ac Iaith Arwyddion Prydain	27
Technolegau Clyw Cynorthwyol.....	31
Gwelliannau Mynediad i'r Safle yn Ysbyty Bronllys.....	32
Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Rhywedd	33
Hyfforddiant Pencampwr Anableddau Dysgu	35
Cylchlythyrau Hyfforddiant Rheolaidd	35
Addewid Cyflogwr sy'n Gyfeillgar i Oedran.....	37
Hyderus o ran Anabledd.....	38
Cefnogi ein Staff LHDTTC+	39
Hyrwyddo a Chefnogi Rhwydweithiau Staff.....	39
Rhaglen Mentora o Chwith 2024-25.....	41
Hyfforddiant Cydraddoldeb i Reolwyr ac Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb	44
Hyfforddiant Rhagfarn Ddiarwybod ac Anymwybodol	45
Grŵp Adolygu Polisi'r Gweithlu.....	45
Codi Llais Heb Ofn.....	46

Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol	52
Symud Ymlaen: Ein Blaenoriaethau ar gyfer 2025-26	59
Rhagor o wybodaeth	60
Atodiad A: Adrodd a Dadansoddi ar y Bwlch Cyflog Rhwng Rhywiau	61
Atodiad B: Adrodd a Dadansoddi ar Gyflog Ethnigrwydd	66
Atodiad C: Data'r Gweithlu	68

Rhagair

Rhagair y Prif Swyddog Gweithredol - Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb 2024-25

Rwy'n falch o gyflwyno Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ar gyfer 2024–25. Mae'r adroddiad hwn yn pwysleisio'r cynnydd rydym wedi'i wneud wrth hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysoldeb ar draws ein gwasanaethau a'n gweithlu. Mae'r gwerthoedd hyn yn parhau i fod yn ganolog i'n gweledigaeth o ddarparu gofal teg, sy'n canolbwyntio ar y person, i bawb sy'n byw ym Mhowys ac yn dibynnu ar ein gwasanaethau.

Eleni, roeddem yn arbennig o falch o lansio **SignLive**, gan alluogi defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain (BSL) i gyfathrebu â'n timau'n haws ac yn fwy effeithiol. Mae hyn yn nodi cam pwysig tuag at chwalu rhwystrau mewn mynediad at ofal iechyd ar gyfer ein cymuned Ddall ac mae'n adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i gyfathrebu cynhwysol.

Hoffwn gydnabod ymdrechion eithriadol ein Timau **Iechyd Cyhoeddus a Mamolaeth**, y mae eu gwaith wedi gwneud gwahaniaeth go iawn wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a gwella canlyniadau i deuluoedd a chymunedau. O ymgyrchoedd iechyd penodol i gefnogaeth feichiogrwydd wedi'i phersonoli, mae eu hymroddiad yn parhau i fod yn grym wrth ddarparu gofal sy'n dosturiol ac yn deg.

Roedden ni hefyd yn falch o gael ein cydnabod fel **Cyflogwr Cyfeillgar i Oedran**, llwyddiant sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i werthfawrogi pobl ar bob cam o'u bywyd gwaith. Mae creu amgylchedd cefnogol a chynhwysol ar gyfer staff o bob oed yn cryfhau ein gweithlu ac yn cyfoethogi ein sefydliad cyfan.

Mae mwy i'w wneud o hyd, ond rwyf wedi fy ysbrydoli gan y cynnydd rydyn ni'n ei wneud. Diolch i'n staff, partneriaid a chymunedau am eich cefnogaeth barhaus a'ch ymrwymiad i gyfiawnder yn y maes iechyd a gofal.



Hayley Thomas
Prif Swyddog Gweithredol
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Unwaith eto, rydym yn falch o gyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol Cydraddoldeb. Un ffocws allweddol eleni fu datblygu a chyflawni ein **Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol**, sy'n cyd-fynd â gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru Wrth-hiliol erbyn 2030. Trwy ymgysylltu â staff a sesiynau gwrando, rydym wedi dechrau sgysiau pwysig a sefydlu'r sylfaen ar gyfer gwaith parhaus yn y maes hwn.

Rydym hefyd yn falch o fod wedi derbyn ardystiad **Cyflogwr Cyfeillgar i Oedran**. Mae hyn yn cydnabod ein hymdrechion i greu amgylchedd gwaith cefnogol a hyblyg i gydweithwyr o bob oed, gan eu galluogi i ffynnu ym mhob cam o'u gyrfaeodd.

Maes arwyddocaol arall o gynnydd fu cryfhau parhaus ein cynnig hyfforddiant Cydraddoldeb mewnol. O Ymwybyddiaeth Rhywedd i Arweinyddiaeth Dosturiol a Rhagfarn Wybyddol, rydym yn buddsoddi mewn dysgu sy'n rhoi'r sgiliau a'r hyder i'n gweithlu i gynnwys cydraddoldeb ym mhopeth a wnawn.

Diolch i'n staff a'n partneriaid am eu hymroddiad a'u hymrwymiad.



Debra Wood-Lawson
Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant
a Hyrwyddwr Cydraddoldeb y Bwrdd

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Ardal Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (BIAP) yn rhannu'r un ffiniau ag ardal Cyngor Sir Powys (CSP). Adeg cyfrifiad 2021 roedd 133,200 o bobl yn byw ym Mhowys - sir fawr, wledig o tua 2000 milltir sgwâr. Dwysedd y boblogaeth hon o 26 unigolyn fesul cilomedr sgwâr yw'r isaf o bell ffordd o ardaloedd awdurdodau lleol Cymru.

Mae natur wledig Powys yn golygu, er bod llawer o wasanaethau'n cael eu darparu'n lleol drwy ein hysbytai a'n gwasanaethau cymunedol, nid oes Ysbytai Cyffredinol Dosbarth yn ardal y bwrdd iechyd. Mae hyn yn golygu bod cyfran sylweddol o swyddogaethau gofal iechyd eilaidd i drigolion Powys yn cael eu comisiynu gan fyrddau iechyd cyfagos, gan gynnwys dros y ffin yn Lloegr. Mae cyfran sylweddol o ddyraniad cyllid BIAP yn cael ei wario ar wasanaethau a gomisiynwyd sy'n digwydd y tu allan i'r bwrdd iechyd, ac mae'r gwasanaethau a gynigir yn uniongyrchol wedi'u canolbwyntio'n anghymesur mewn meysydd fel gofal cymunedol (o'i gymharu ag ardaloedd eraill byrddau iechyd Cymru).

Canlyniad i hyn yw bod y bwrdd iechyd fel sefydliad yn llai na'r disgwyl o ran poblogaeth yn unig, gan gyflogi 2,605 o staff (ar 31 Mawrth 2025), ochr yn ochr â gwirfoddolwyr. Mae cyfanswm y staff hwn yn cynrychioli llai nag Ysbyty Cyffredinol Dosbarth nodweddiadol mewn byrddau iechyd eraill yng Nghymru ac mae ein model gweithredu yn wahanol, gan ganolbwyntio ar gymysgedd o ofal sylfaenol, gofal cymunedol / trydyddol a gofal wedi'i gomisiynu. Oherwydd y diffyg safleoedd canolog, mae'r corff staff hefyd ar led, ac mae llawer o staff yn byw y tu allan i'r sir.

Yn rhannol fel ymateb i'n cyd-destun unigryw, rydym wedi meithrin partneriaethau cryf gyda chydweithwyr mewn sectorau eraill, megis Cyngor Sir Powys, Heddlu Dyfed-Powys a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO).

Gellir dod o hyd i wybodaeth am sut rydym yn bwriadu gwella gwasanaethau i bobl Powys ar ein gwefan dan yr adran [Dogfennau Allweddol](#) sy'n cynnwys copïau o'n hadroddiadau blynyddol, datganiadau ansawdd, strategaethau a chynlluniau blynyddol.

Amrywiaeth ym Mhowys

Mae BIAP yn gwerthfawrogi amrywiaeth ein poblogaeth a'r angen i drin ein gilydd ag urddas a pharch. Ochr yn ochr â'n gwerthoedd, mae gennym rwymedigaethau cyfreithiol penodol fel darparwr gwasanaeth a chyflogwr. Yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar weithgarwch y bwrdd iechyd wrth hyrwyddo cydraddoldeb a mynd i'r afael â gwahaniaethu ar gyfer ein cleifion a'r boblogaeth ehangach ar sail y nodweddion gwarchoddedig perthnasol

Oedran, Anabledd, Beichiogrwydd a Mamolaeth, Hil ac Ethnigrwydd, Crefydd a Chredoau, Rhyw, Cyfeiriadedd Rhywiol ac Ailbennu Rhywedd.

Yn unol â chymeriad gwledig yr ardal, mae proffil demograffig poblogaeth Powys, fel y dangoswyd yng Nghyfrifiad 2021, yn dra gwahanol i gyfartaledd Cymru ar gyfer rhai ffigyrau:

- Oedran – mae 27.8% o boblogaeth Powys yn 65 oed a throsodd. Dyma'r uchaf o unrhyw ardal awdurdod lleol yng Nghymru, lle mae'r gyfran gyfartalog yn y grŵp hwn yn 21.3%.
- Anabledd - nodwyd 18.1% ag anabledd, yn is na chyfartaledd Cymru o 21.1%. Disgrifiodd 7.6% eu hanabledd fel un sy'n cyfyngu ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd 'llawer'; y ffigur hwn oedd yr isaf ar y cyd yng Nghymru.
- Hil – Disgrifiodd 94.9% o'r boblogaeth eu Hethnigrwydd fel Gwyn (Cymraeg, Saesneg, Albanaidd neu Brydeinig), gan godi i 97.7% wrth gynnwys pob grŵp Gwyn arall (gan gynnwys grwpiau Gwyddelig, Ewropeaidd a phob grŵp o Deithwyr); mae'r ffigurau hyn ymhlith yr uchaf yng Nghymru ac yn cyfateb i gyfran y boblogaeth sy'n nodi eu bod yn grwpiau Du, Asiaidd neu grwpiau eraill nad ydynt yn wyn yw un o'r isaf yng Nghymru, sef dim ond 2.2%, o'i gymharu â 6.2% ar gyfer Cymru gyfan.

Mae poblogaeth fach wedi'i gwasgaru ar draws màs tir gwledig mawr, yn golygu bod BIAP yn wynebu llawer o heriau wrth geisio mynd i'r afael ag anghydraddoldeb mynediad, anghydraddoldeb cyfle ac, yn y pen draw, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd i bobl sy'n byw ym Mhowys. Mae gennym her benodol o ran deall a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol, a sicrhau bod pobl mewn grwpiau incwm is yn enwedig sy'n teimlo'r effaith yr argyfwng costau byw presennol, yn gallu cyrchu'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Cydnabuwyd hyn gan adroddiadau gan [Iechyd Cyhoeddus Cymru](#) ac [Ymddiriedolaeth Nuffield](#). Mae ein [Cynllun Cydraddoldeb Strategol](#) (CCS) yn cynnwys mwy o fanylion am yr heriau hyn ac yn amlinellu ein nodau a'n hamcanion i leihau anghydraddoldeb, sy'n cyd-fynd â'n Cynllun Tymor Canolig Integredig.

Gweithgarwch yn ystod 2024-2025

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu'r gweithgaredd sy'n gysylltiedig â Chydraddoldeb a gynhaliwyd yn ystod 2024-2025, wedi'i groesgyfeirio â'r Nodau Hirdymor/Amcanion Cydraddoldeb a amlinellwyd yn ein [Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028](#).

Amcan	Nodwedd (ion) Gwarchoddedig a grwpiau eraill yr effeithir arnynt.	Gwaith a wnaed yn ystod 2024-25	Cyfrannu at yr amcanion Lles/galluogi'r Strategaeth Iechyd a Gofal	Safonau Iechyd a Gofal a Changhennau Polisi Ychwanegol
1. Fel rhan o <i>Gwella gyda'n Gilydd</i> (Model Carlam Cynaliadwy gynt), byddwn yn dylunio a datblygu ein gwasanaethau yn unol â'r egwyddor o ddarparu gwasanaethau mor agos â phosibl at gartrefi pobl, datganoli gwasanaethau	Sylfaenol Oedran Anabledd Statws Economaidd- Gymdeithasol	Gwella gyda'n Gilydd Rydym wedi parhau i ehangu'r ystod o wasanaethau sydd ar gael ym Mhowys, sy'n golygu y gall unigolion gael mynediad atynt yn agosach at gartref, yn hytrach na gorfod teithio y tu allan i'r sir - mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys: Anadlol Rhaglen Adsefydlu Pwlmonaidd Rhithwir: Gall unigolion gael mynediad o'u cartref eu hunain. Os nad oes ganddynt dabled neu gliniadur, maent yn gallu benthyg un o Lyfrgell Powys leol, gyda chymorth gan Hwylusydd Digidol i'w helpu nhw gael mynediad i'r sesiynau rhithwir. Ocsimetreg cwsg dros nos: llwybr apnoea cwsg rhwystrol. Mae hwn yn wasanaeth a	Canolbwyntio ar Les: Canolbwyntio ar ofal iechyd ataliol Digidol yn Gyntaf Defnyddio technolegau a chyfleoedd digidol i wella mynediad. Amgylcheddau Arloesol: Gwella amgylchedd ein safleoedd gyda thechnolegau a dulliau newydd.	<ul style="list-style-type: none"> • Gofal ag Urddas • Gofal Amserol • Gofal Unigol • Mwy na Geiriau

Amcan	Nodwedd (ion) Gwarchoddedig a grwpiau eraill yr effeithir arnynt.	Gwaith a wnaed yn ystod 2024-25	Cyfrannu at yr amcanion Lles/galluogi'r Strategaeth Iechyd a Gofal	Safonau Iechyd a Gofal a Changhennau Polisi Ychwanegol
<p>, defnyddio technolegau ar-lein a dulliau eraill i osgoi'r angen i ddanfôn cleifion allan o'r sir lle bo hynny'n bosibl.</p>		<p>gynhelir yn rhithwir, lle gall cleifion gasglu a dychwelyd yr ocsifesurydd i'w safle BIAP agosaf a chael mynediad i gefnogaeth trwy Attend Anywhere neu dros y ffôn gan y tîm clinigol.</p> <p>Prawf llawn o swyddogaeth yr ysgyfaint: Mae hyn bellach ar gael yn Ne Powys, gyda gwaith i ddatblygu cynnig Gogledd Powys yn gysylltiedig â Rhaglen Lles Gogledd Powys.</p> <p>Cardioleg Ers cyflwyno Gwasanaeth Cardioleg Cymunedol BIAP yng Ngogledd Powys o 11 Tachwedd 2022, mae 613 o gleifion newydd wedi cael eu gweld mewn gwasanaeth y byddent wedi gorfod ei gael yn yr Amwythig o'r blaen. Mae'r gwasanaeth hefyd yn gweithio gyda ac yn cefnogi meddygfeydd i gynnal asesiadau rhythm ECG gan ddefnyddio dyfeisiau symudol Kardia a Zio gyda 323 o gleifion</p>	<p>Gofal Cydgysylltiedig: Sicrhau dull gweithredu safonol at hygyrchedd ar draws ein gwasanaethau fel bod ein cleifion yn profi'r un fath o wasanaeth ar draws gwahanol rannau o'r bwrdd iechyd.</p>	

Amcan	Nodwedd (ion) Gwarchoddedig a grwpiau eraill yr effeithir arnynt.	Gwaith a wnaed yn ystod 2024-25	Cyfrannu at yr amcanion Lles/galluogi'r Strategaeth Iechyd a Gofal	Safonau Iechyd a Gofal a Changhennau Polisi Ychwanegol
		<p>wedi dilyn Llwybr Arrhythmia (20 yn dychwelyd o restr aros gofal eilaidd). Nododd adolygiad manwl o 121 o achosion cleifion y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 15k milltir teithio cleifion wedi'u harbed (cyfartaledd = 123 milltir wedi'u harbed fesul claf) • 372 o oriau teithio cleifion wedi'u harbed • 5.3k kg o CO2 wedi'i arbed <p>Dermatoleg Mae cyllid gan Rwydwaith Canser Cymru wedi galluogi meddygfeydd teulu yng Ngogledd Powys i dderbyn y camera Dermosgopi Dermatoleg gan Casio (DZ-D100). Nod cael camera dermosgopi ym mhob meddygfa ym Mhowys yw sicrhau bod yr offeryn diagnostig ychwanegol gwerthfawr hwn ar gael yn lleol yn y gymuned. Dechreuodd y cynllun peilot ar 01.09.24 gyda Chlinig St. Michaels i alluogi</p>		

Amcan	Nodwedd (ion) Gwarchoddedig a grwpiau eraill yr effeithir arnynt.	Gwaith a wnaed yn ystod 2024-25	Cyfrannu at yr amcanion Lles/galluogi'r Strategaeth Iechyd a Gofal	Safonau Iechyd a Gofal a Changhennau Polisi Ychwanegol
		<p>Meddygfeydd yng Ngogledd Powys i atodi llun dermosgop clinigol at atgyfeiriad i Glinig St. Michaels am gyngor a chyfarwyddyd ar ddiagnosis a rheolaeth unrhyw nam ar y croen NAD yw'n cael ei ystyried yn glaf brys yr amheuir bod ganddo ganser.</p> <p>Mae manteision y peilot yn cynnwys, cefnogaeth i bobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig i gael diagnosis o nam anfalaen heb orfod teithio am apwyntiad arbenigol, gan arbed amser a chost. Apwyntiadau cyflymach i weld arbenigwr gyda'r dull brysbennu priodol o friw brys i apwyntiad wyneb yn wyneb brys neu'n uniongyrchol i lawdriniaeth a mynediad gwell i gleifion trwy leihau amseroedd rhestr aros a fydd yn arwain at ddiagnosis a rheolaeth gyflymach o friw canser y croen a amheuir nad yw'n frys (USC). Hyd at 18/09/2024, o'r 11 atgyfeiriad a dderbyniwyd:</p>		

Amcan	Nodwedd (ion) Gwarchoddedig a grwpiau eraill yr effeithir arnynt.	Gwaith a wnaed yn ystod 2024-25	Cyfrannu at yr amcanion Lles/galluogi'r Strategaeth Iechyd a Gofal	Safonau Iechyd a Gofal a Changhennau Polisi Ychwanegol
		<ul style="list-style-type: none"> • Cafodd 37% o'r cleifion eu rhyddhau dan y llwybr cyngor a chyfarwyddyd a drafodwyd yn ddiweddar, gan osgoi'r angen iddynt deithio i unrhyw apwyntiadau. • Atgyfeiriwyd 36% yn syth i'r llawdriniaeth, gan arbed amser teithio i'r claf gan y bydd yn rhaid i'r claf deithio unwaith i'w driniaeth lawfeddygol gan fydd yr apwyntiad cyn y llawdriniaeth yn cael ei gynnal dros y ffôn, ac mae hyn hefyd yn arbed cost i Bowys gan mai dim ond un apwyntiad wyneb yn wyneb sy'n ofynnol. • 0% angen apwyntiad wyneb yn wyneb cyntaf. • Cofnododd 27% o dan "arall" a oedd yn golygu bod Clinig St Michael wedi gofyn i'r atgyfeiriad gael ei ailgyfeirio i ofal eilaidd oherwydd bod y llun clinigol yn edrych yn amheus (nid yw 		

Amcan	Nodwedd (ion) Gwarchoddedig a grwpiau eraill yr effeithir arnynt.	Gwaith a wnaed yn ystod 2024-25	Cyfrannu at yr amcanion Lles/galluogi'r Strategaeth Iechyd a Gofal	Safonau Iechyd a Gofal a Changhennau Polisi Ychwanegol
		<p>llwybr USC wedi'i gynnwys yn y peilot).</p> <p>Orthopaedeg Cyhyrysgerbydol Dangosodd peilot Orthopedig Cyhyrysgerbydol, o 2 Medi 2024 ymlaen, fod cyfanswm y cleifion a gafodd eu brysennu drwy'r peilot yn 178 a bod 47% o gleifion (84 o unigolion) wedi'u hailgyfeirio i gael eu gweld gan Wasanaeth Asesu a Thrin Cyhyrysgerbydol Clinigol BIAP, lle byddent wedi cael eu gweld gan ymgynghorydd o'r blaen, yn fwyaf tebygol o fod o'r tu allan i'r sir. Mae achos busnes yn cael ei ddatblygu i ehangu'r cynllun peilot ledled Powys.</p>		

Amcan	Nodwedd (ion) Gwarchoddedig a grwpiau eraill yr effeithir arnynt.	Gwaith a wnaed yn ystod 2024-25	Cyfrannu at yr amcanion Lles/galluogi'r Strategaeth Iechyd a Gofal	Safonau Iechyd a Gofal a Changhennau Polisi Ychwanegol
		<p>Profion Pwynt Gofal Mae swydd y Cydlynnydd Profion Pwynt Gofal hefyd wedi'i gwneud yn barhaol, gan alluogi cynnal llawer o brofion o fewn BIAP a fyddai gynt wedi golygu aros yn hir neu deithio y tu allan i'r sir.</p> <p>Gall ehangu'r ystod o wasanaethau y gellir eu cynnig ym Mhowys a lleihau'r angen i deithio fod o fudd i'n holl gleifion drwy leihau amseroedd aros a theithio. Fodd bynnag, mae'n arbennig o debygol o fod o fudd i'r rhai y mae teithio'n arbennig o anodd neu'n anghyfleus iddynt, fel y rhai mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol tlotach, y rhai sydd mewn oedran hŷn, plant, pobl ag anableddau a'u gofalwyr.</p>		

Allied Health Professions & Health Science: Point of Care Testing

What is Point of Care Testing (POCT)?:

Point of Care Testing enables testing of patient samples at or near the patient's side in a range of clinical & increasingly non-clinical settings. These settings include, but are not limited to:

- Acute care departments
- Wards
- Outpatient clinics
- GP surgeries
- Patients' homes



Melanie Prince, PTHB Point of Care Testing (POCT) Coordinator

Amcan	Nodwedd (ion) Gwarchoddedig a grwpiau eraill yr effeithir arnynt.	Gwaith a wnaed yn ystod 2024-25	Cyfrannu at yr amcanion Lles/galluogi'r Strategaeth Iechyd a Gofal	Safonau Iechyd a Gofal a Changhennau Polisi Ychwanegol
		Mae'r rhain wedi cael eu nodi fel rhai o'r grwpiau blaenoriaeth uchaf yn ein hymarferion ymgynghori, felly mae'r maes gwaith hwn yn parhau i fod yn flaenoriaeth sefydliadol bwysig o safbwynt Cydraddoldeb yn ogystal ag yn ehangach.		
2. Gweithio i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd o fewn ein poblogaeth a gwneud y camau i nodi a mynd i afael ag eraill.	<p>Sylfaenol Oedran Anabledd Beichiogrwydd a Mamolaeth</p> <p>Atodol Statws Economaidd-Gymdeithasol</p>	<p>Tîm Iechyd y Cyhoedd Powys</p> <p>Gwasanaeth Brechu</p> <ul style="list-style-type: none"> • Datblygwyd cynllun ecwiti brechu i amlinellu meysydd gweithredu allweddol i leihau anghydraddoldeb mewn brechu. • Defnyddio model canolbwynt a lloerennau i gyflwyno Rhaglen Brechu Anadlol y Gaeaf i boblogaeth gymwys Powys • Cynhaliwyd clinigau hwyr yn y prynhawn a'r penwythnos i gynyddu mynediad at wasanaethau. • Cynhaliwyd clinigau dal fyny ar gyfer ffliw a ffliw oed ysgol i'r rhai a gollodd apwyntiadau. 	<p>Canolbwyntio ar Les: Bydd gwaith i fynd i'r afael â'r achosion sylfaenol sy'n arwain at bobl angen cael mynediad at wasanaethau gofal iechyd yn lleihau'r galw ar y gwasanaethau hynny ar bob lefel.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Aros yn iach • Gofal Unigol • Cynllun Gweithredu LHDTTC+

Amcan	Nodwedd (ion) Gwarchoddedig a grwpiau eraill yr effeithir arnynt.	Gwaith a wnaed yn ystod 2024-25	Cyfrannu at yr amcanion Lles/galluogi'r Strategaeth Iechyd a Gofal	Safonau Iechyd a Gofal a Changhennau Polisi Ychwanegol
		<ul style="list-style-type: none"> • Cyhoeddwyd cyfryngau printiedig a digidol i hyrwyddo rhaglenni brechu'r gaeaf. • Cafodd y deunydd ei ddarparu yn Gymraeg ac yn Saesneg • Mae cyfarfodydd grŵp cyflawni gweithredol misol yn trafod cydraddoldeb a mynediad fel rhan o'r drafodaeth ynghylch cynlluniau • Mae data yn cael ei adolygu i nodi ardaloedd o dderbyn isel ac mae cynlluniau hyblyg yn cael eu newid i ymateb. <p>Un o'r rhwystrau a nodwyd i dderbyn y brechlyn COVID-19 ym Mhowys oedd mynediad at y prif ganolfannau brechu ym Mronllys a'r Drenewydd. Yng Ngwanwyn 2024, addasom ein model darparu i sicrhau bod clinigau lleol yn y trefi mawr ledled Powys.</p>		

Amcan	Nodwedd (ion) Gwarchoddedig a grwpiau eraill yr effeithir arnynt.	Gwaith a wnaed yn ystod 2024-25	Cyfrannu at yr amcanion Lles/galluogi'r Strategaeth Iechyd a Gofal	Safonau Iechyd a Gofal a Changhennau Polisi Ychwanegol
		<p>Ar gyfer ymgyrch Brechu COVID Gaeaf 2024/25, mabwysiadwyd model tebyg, lle gwahoddwyd cleifion cymwys i'w clinig mwyaf lleol, gan leihau'r angen i deithio pellteroedd maith ar draws y sir. Cynigiwyd ymgyrch gaeaf 2024/25 mewn tair ar ddeg o leoliadau gwahanol drwy Wasanaeth Brechu'r Bwrdd Iechyd a Meddygfeydd ledled Powys.</p> <p>Mae Gwasanaeth Brechu'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cynnig apwyntiadau ar ôl gwaith ac apwyntiadau ar ddydd Sadwrn drwy gydol yr ymgyrch i sicrhau bod gan bawb y cyfle i fynychu apwyntiad sy'n gyfleus iddyn nhw, gan gynnwys ar ôl gwaith ac ar benwythnosau.</p> <p>Dal fyny MMR Rhwng Mawrth 2024 a Gorffennaf 2024 cynhaliodd BIAP ymgyrch dal i fyny â'r brechlyn MMR a oedd yn targedu plant oedran ysgol. Adolygodd y tîm nyrso</p>		

Amcan	Nodwedd (ion) Gwarchoddedig a grwpiau eraill yr effeithir arnynt.	Gwaith a wnaed yn ystod 2024-25	Cyfrannu at yr amcanion Lles/galluogi'r Strategaeth Iechyd a Gofal	Safonau Iechyd a Gofal a Changhennau Polisi Ychwanegol
		<p>iechyd ysgol ddata nifer yr ysgolion a chysylltodd â'r plant hynny oedd â chofnod brechu anghyflawn. Roedd hyn yn cynnwys ysgolion uwchradd a chynradd. Cynigiodd tîm y SHN frechu yn yr ysgol, Canolfannau Brechu y Drenewydd a Bronllys, rhai clinigau allgymorth mewn safleoedd BIAP, neu atgyfeiriwyd nhw'n ôl at eu meddyg teulu.</p> <p>Tîm rhoi'r gorau i ysmegu</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae prosiect Neges Destun Meddygfeydd Rhoi'r Gorau i Ysmegu wedi parhau i dargedu Meddygfeydd mewn ardaloedd o amddifadedd gan anfon gwahoddiadau personol at ysmygwyr i geisio rhoi'r gorau iddi gyda chefnogaeth gan y tîm Rhoi'r Gorau i Ysmegu yn lleol. Mae'n debyg bod y prosiect hwn wedi cyfrannu at y cynnydd yn nifer cyffredinol yr ymdrechion i roi'r gorau i ysmegu ym Mhowys yn Ch1 2024/25 o'i gymharu 		

Amcan	Nodwedd (ion) Gwarchoddedig a grwpiau eraill yr effeithir arnynt.	Gwaith a wnaed yn ystod 2024-25	Cyfrannu at yr amcanion Lles/galluogi'r Strategaeth Iechyd a Gofal	Safonau Iechyd a Gofal a Changhennau Polisi Ychwanegol
		<p>â Ch1 2023/24 ac mae tystiolaeth o gynnydd mewn gweithgaredd mewn timau Rhoi'r Gorau i Ysmygu mewn Meddygfeydd yn yr ardaloedd hyn yn dilyn anfon neges destun.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae Ymgynghorwyr Rhoi'r Gorau i Ysmygu wedi targedu eu cefnogaeth i Fferyllfeydd mewn ardaloedd o amddifadedd. Nod eu cefnogaeth yw cynyddu hyrwyddo a chyflenwi'r gwasanaeth cymorth rhoi'r gorau i ysmegu a ddarperir gan y fferyllfeydd yn yr ardaloedd hyn. • Mae Timau Bydwreigiaeth yn canolbwyntio ar ymweld ag ardaloedd o amddifadedd i geisio cynyddu monitro Carbon Monocsid ac atgyfeirio ar gyfer cymorth rhoi'r gorau i ysmegu i gleientiaid yn yr ardaloedd hyn. • Cymorth grŵp Rhoi'r Gorau i Ysmygu a chlinigau cymunedol mewn ardaloedd o amddifadedd 		

Amcan	Nodwedd (ion) Gwarchoddedig a grwpiau eraill yr effeithir arnynt.	Gwaith a wnaed yn ystod 2024-25	Cyfrannu at yr amcanion Lles/galluogi'r Strategaeth Iechyd a Gofal	Safonau Iechyd a Gofal a Changhennau Polisi Ychwanegol
		<ul style="list-style-type: none"> • Recriwtio Hyrwyddwyr Rhoi'r Gorau i Ysmygu gan ganolbwyntio ar ardaloedd o amddifadedd. Bydd yr hyrwyddwyr yn cael rhywfaint o hyfforddiant ynghylch cael sgysiau am newid ymddygiad a chyfeirio at wasanaethau • Mae cyflawni prosiect Neges Destun Meddygon Teulu ar gyfer Rhoi'r Gorau i Ysmygu wedi parhau i dargedu Meddygfeydd mewn ardaloedd o amddifadedd gan anfon gwahoddiadau personol at ysmygwyr i geisio rhoi'r gorau i ysmegu gyda chefnogaeth gan y tîm Rhoi'r Gorau i Ysmygu yn lleol. Mae'n debyg bod y prosiect hwn wedi cyfrannu at y cynnydd yn nifer y ceisiadau i roi'r gorau i ysmegu ym Mhowys yn 2024/25. • Cymorth wedi'i dargedu a ddarperir gan Ymgynghorwyr Rhoi'r Gorau i Ysmygu i fferyllfeydd mewn ardaloedd 		

Amcan	Nodwedd (ion) Gwarchoddedig a grwpiau eraill yr effeithir arnynt.	Gwaith a wnaed yn ystod 2024-25	Cyfrannu at yr amcanion Lles/galluogi'r Strategaeth Iechyd a Gofal	Safonau Iechyd a Gofal a Changhennau Polisi Ychwanegol
		<p>o amddifadedd. Mae'r gefnogaeth hon i helpu cynyddu hyrwyddo a chyflenwi'r gwasanaeth cymorth rhoi'r gorau i ysmegu a ddarperir gan y fferyllfeydd yn yr ardaloedd hyn.</p> <p>Tîm Ysgolion Iach</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymorth a gynigir gan Ysgolion Iach i ysgolion ym Mhowys sy'n gymwys oherwydd lefel hawl i brydau ysgol am ddim i gofrestru ar gyfer y cynllun Bwyd a Hwyl. • Gwaith fêpio gyda phobl ifanc sy'n ymgysylltu ag ysgolion mewn ardaloedd o amddifadedd • Gwobr Byrbryd Aur Cyn-ysgolion Iach wedi'i thargedu at leoliadau Dechrau'n Deg ochr yn ochr â lleoliadau ehangach <p>Tîm Diogelu Iechyd</p>		


Amcan	Nodwedd (ion) Gwarchoddedig a grwpiau eraill yr effeithir arnynt.	Gwaith a wnaed yn ystod 2024-25	Cyfrannu at yr amcanion Lles/galluogi'r Strategaeth Iechyd a Gofal	Safonau Iechyd a Gofal a Changhennau Polisi Ychwanegol
		<ul style="list-style-type: none"> • Mae profion feirysau a gludir yn y gwaed wedi'u cwblhau o fewn y garfan risg uchel sy'n mynychu gwasanaethau prawf, gydag ymweliadau ag Aberhonddu, y Drenewydd a Llandrindod ers mis Awst 2024. • Mae profion ar gyfer feirysau a gludir yn y gwaed hefyd wedi digwydd ym Mhonthafren, y Drenewydd a'r Trallwng ac o fewn banciau bwyd yn Llandrindod, Ystradgynlais ac Aberhonddu i sicrhau bod prawf yn cael ei gynnig i'r rhai o ardaloedd difreintiedig. • Mae 'Ffit i Ffermio' wedi cynnig gwasanaethau gwirio iechyd i ffermwyr ledled Powys, gan gynnwys ymweliad â'r Ffair Aeaf. Mae'r prosiect hwn yn rhedeg oherwydd cydnabyddiaeth mai poblogaeth yw hon nad yw bob amser yn cael 		

Amcan	Nodwedd (ion) Gwarchoddedig a grwpiau eraill yr effeithir arnynt.	Gwaith a wnaed yn ystod 2024-25	Cyfrannu at yr amcanion Lles/galluogi'r Strategaeth Iechyd a Gofal	Safonau Iechyd a Gofal a Changhennau Polisi Ychwanegol
		<p>mynediad at wasanaethau mor rhwydd â grwpiau eraill yn y sir.</p> <p>Dull System Gyfan at Bwysau Iach Mae'r Dull System Gyfan at bwysau iach yn cynnwys gwaith i fynd i'r afael â:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Fforddiadwyedd bwyd iach – Mae'r tîm yn parhau i edrych ar gynllun Cychwyn Iach y GIG. Mae'r nifer sy'n ei ddefnyddio wedi bod tua 62% ym Mhowys yn gyffredinol. Mae staff Powys wedi siarad â'r tîm cenedlaethol ac wedi awgrymu nifer o newidiadau a allai gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar hyn – codi'r trothwy ar gyfer cymhwysedd, cynyddu'r arian sydd ar gael i bob plentyn, ei gwneud hi'n bosibl defnyddio'r cerdyn ar-lein, datblygu ap ffôn ac adolygu'r modd y caiff y cynllun cyfan ei gyflwyno. Mae'r niferoedd gwirioneddol o bobl sy'n cael mynediad i'r cynllun ym Mhowys 		

Amcan	Nodwedd (ion) Gwarchoddedig a grwpiau eraill yr effeithir arnynt.	Gwaith a wnaed yn ystod 2024-25	Cyfrannu at yr amcanion Lles/galluogi'r Strategaeth Iechyd a Gofal	Safonau Iechyd a Gofal a Changhennau Polisi Ychwanegol
		<p>yn amrywio ond fel arfer maent rhwng 435-450 bob mis.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r tîm hefyd yn edrych ar fforddiadwyedd bwyd iach a sgiliau coginio. <p>Cynllun Croesawu Bwydo ar y Fron Rydym wedi cyflwyno'r cynllun ym Mhowys i gefnogi mamau i deimlo'n hyderus pan fyddant yn bwydo ar y fron yn gyhoeddus. Er bod cyfraddau cychwyn bwydo ar y fron dros 80% ym Mhowys, mae hyn yn gostwng i islaw 60% ar ôl 6 wythnos a gobeithiwn y bydd y cynllun hwn yn mynd rhywfaint o'r ffordd i fynd i'r afael â hyn. Mae BIAP a CSP wedi cytuno y bydd pob ardal sy'n wynebu'r cyhoedd yn croesawu bwydo ar y fron. Rydym yn gweithio gyda safleoedd ledled y sir – gan ddechrau yn Ystradgynlais a'r Drenewydd, oherwydd mai nhw yw ardaloedd mwyaf difreintiedig Powys – i'w cefnogi i fod yn groesawgar i fwydo ar</p>		

Amcan	Nodwedd (ion) Gwarchoddedig a grwpiau eraill yr effeithir arnynt.	Gwaith a wnaed yn ystod 2024-25	Cyfrannu at yr amcanion Lles/galluogi'r Strategaeth Iechyd a Gofal	Safonau Iechyd a Gofal a Changhennau Polisi Ychwanegol
		<p>y fron. Hyd yn hyn, mae gennym dros 70 wedi cofrestru (lansiwyd y cynllun ar 1^{af} Awst 2024). Mae gwybodaeth am y cynllun wedi'i chynnwys yn y sesiwn ymsefydlu staff a hefyd mewn hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth yn BIAP. Cydnabyddir y gallai mamau mewn teuluoedd incwm is fod yn llai tebygol o fwydo ar y fron, felly gall cynyddu cychwyn bwydo ar y fron arwain at welliannau hirdymor mewn iechyd a maeth.</p>		
<p>3. Gwella mynediad at ein gwasanaethau a'n safleoedd ar gyfer unigolion y mae eu hanghenion</p>	<p>Sylfaenol Anabledd Oedran</p> <p>Atodol Rhyw Cyfeiriadedd Rhywiol</p>	<p>Gwasanaeth Cyfnewid Fideo Iaith Arwyddion Prydain  SignLive</p> <p>Rydym wedi sefydlu mynediad i switsfwrdd ffôn BIAP drwy'r gwasanaeth <i>SignLive</i>. Yn y pen draw, mae hyn yn galluogi defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain i gysylltu ag unrhyw linell ffôn</p>	<p>Canolbwyntio ar Les: Ehangu mynediad at wasanaethau lles e.e. byw'n dda, SilverCloud</p> <p>Digidol yn Gyntaf</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gofal Effeithiol • Gofal ag Urddas • Gofal Unigol • Mwy na Geiriau

Amcan	Nodwedd (ion) Gwarchoddedig a grwpiau eraill yr effeithir arnynt.	Gwaith a wnaed yn ystod 2024-25	Cyfrannu at yr amcanion Lles/galluogi'r Strategaeth Iechyd a Gofal	Safonau Iechyd a Gofal a Changhennau Polisi Ychwanegol
yn wahanol i eraill.	Ailbennu Rhywedd	<p>BIAP trwy ddehonglydd Iaith Arwyddion Prydain ar eu cymhelliant eu hunain; mae hyn wedi cael ei ddefnyddio ar 72 achlysur gwahanol yn ystod 2024-25. Gellir defnyddio'r gwasanaeth hefyd ar gyfer cyfieithu byw ar ôl cyrraedd yr ysbyty, ac mae ei argaeledd wedi'i hysbysebu ar ein gwefannau.</p> <p>Rhoddodd un defnyddiwr gwasanaeth yr adborth canlynol o'i brofiad o ddefnyddio'r gwasanaeth:</p> <p>"Defnyddiais SignLive i gael sgwrs gyda'r gwasanaeth deietegol i drafod iechyd fy Mam. Roedd y materion yn rhy gymhleth i ddelio â nhw drwy e-bost ac roedd angen sgwrs, felly llwyddais i gysylltu â rhywun i ddatrys hyn. Aeth y sgwrs yn dda ac roedden nhw'n gallu rhoi cyngor. Heb allu cael mynediad at y gwasanaeth, byddai hyn wedi cael effaith andwyol ar iechyd Mam ac ni fyddai'r holl broblemau wedi cael eu nodi mewn modd amserol a fyddai</p>	<p>Defnyddio technolegau a chyfleoedd digidol i wella mynediad; gwella mynediad y rhai sydd â gofynion ychwanegol i'r gwasanaethau digidol hynny.</p> <p>Amgylcheddau Arloesol: Gwella amgylchedd ein safleoedd gyda technolegau a dulliau gweithredu newydd; gall hyn alluogi cleifion i dderbyn triniaethau o fewn Powys a allai fel</p>	

Amcan	Nodwedd (ion) Gwarchoddedig a grwpiau eraill yr effeithir arnynt.	Gwaith a wnaed yn ystod 2024-25	Cyfrannu at yr amcanion Lles/galluogi'r Strategaeth Iechyd a Gofal	Safonau Iechyd a Gofal a Changhennau Polisi Ychwanegol
		<p>wedi cael effaith andwyol uniongyrchol ar iechyd Mam.”</p> <p>Dywedodd aelod o staff y canlynol ar ôl defnyddio'r gwasanaeth am y tro cyntaf:</p> <p>“Fe wnaethon ni drefnu amser i ffonio ychydig oriau ymlaen llaw gan fy mod i'n ymateb i ymholiad brys. Cysylltwyd â mi fel y cynlluniwyd gan y cyfieithydd ar y pryd. Gweithiodd yn dda i mi. Roedd merch y claf wedi defnyddio'r ap felly roedd yn llawer haws na cheisio trefnu cyfieithydd ar y pryd drwy ddulliau eraill. Byddaf yn annog ei ddefnyddio yn y dyfodol. Ym Mhowys, rydym yn dibynnu'n fawr ar gyfathrebu dros y ffôn, felly roedd hyn yn teimlo fel datrysiad gwych.”</p> <p>Cyfieithu ar y pryd Fideo Iaith Dramor ac Iaith Arwyddion Prydain</p> <p>Rydym wedi cynnal y cynnydd yn y defnydd o gyfieithu ar alw a</p> 	<p>arall orfod teithio y tu allan i'r sir.</p> <p>Gofal Cydgysylltiedig: Sicrhau dull gweithredu safonol at hygyrchedd ar draws ein gwasanaethau fel bod ein cleifion yn profi'r un fath o wasanaeth ar draws gwahanol rannau o'r bwrdd iechyd.</p>	

Amcan	Nodwedd (ion) Gwarchodedig a grwpiau eraill yr effeithir arnynt.	Gwaith a wnaed yn ystod 2024-25	Cyfrannu at yr amcanion Lles/galluogi'r Strategaeth Iechyd a Gofal	Safonau Iechyd a Gofal a Changhennau Polisi Ychwanegol															
		<p>welwyd ers cyflwyno cyfieithu fideo ar alw yn eang yn 2023-24.</p> <p>Defnyddiwyd cyfieithu ar y pryd ar 1,258 o achlysuron gwahanol yn 2024-25, 955 o'r rhain (78%) drwy systemau Fideo neu Ffôn ar alw.</p> <table border="1" data-bbox="808 743 1527 986"> <thead> <tr> <th></th> <th>Cyfanswm yr Achosion</th> <th>Ar alw</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>2024-25</td> <td>1,258</td> <td>955 (78%)</td> </tr> <tr> <td>2023-24</td> <td>1,037</td> <td>651 (63%)</td> </tr> <tr> <td>2022-23</td> <td>1,133</td> <td>525 (46%)</td> </tr> <tr> <td>2021-22</td> <td>706</td> <td>313 (44%)</td> </tr> </tbody> </table> <p>Mae cyfieithu ar y pryd ar alw yn cynnig nifer o fanteision dros gyfieithu ar y pryd wyneb yn wyneb gan y gellir ei ddefnyddio lle na ragwelwyd yr angen am gyfieithydd neu lle nad oedd yn bosibl trefnu cyfieithydd lleol oherwydd argaeledd. Mae hefyd yn osgoi costau a theithio lle nad yw'r defnyddiwr gwasanaeth neu'r</p>		Cyfanswm yr Achosion	Ar alw	2024-25	1,258	955 (78%)	2023-24	1,037	651 (63%)	2022-23	1,133	525 (46%)	2021-22	706	313 (44%)		
	Cyfanswm yr Achosion	Ar alw																	
2024-25	1,258	955 (78%)																	
2023-24	1,037	651 (63%)																	
2022-23	1,133	525 (46%)																	
2021-22	706	313 (44%)																	

Amcan	Nodwedd (ion) Gwarchoddedig a grwpiau eraill yr effeithir arnynt.	Gwaith a wnaed yn ystod 2024-25	Cyfrannu at yr amcanion Lles/galluogi'r Strategaeth Iechyd a Gofal	Safonau Iechyd a Gofal a Changhennau Polisi Ychwanegol										
		<p>cyfieithydd yn mynychu. Mae'r rhain yn arbennig o ddefnyddiol mewn cyd-destun gwledig fel Powys lle mae costau teithio'n uchel.</p> <p>Gwelodd 2022-23 alw anarferol o uchel am gyfieithu, yn ôl pob tebyg oherwydd goresgyniad Rwsia o Wcráin ym mis Chwefror 2022. Mae'r galw hwn wedi lleihau'n sylweddol ers hynny, ond mae tynnu enghreifftiau o Rwsieg ac Wcreineg o'r set ddata yn rhoi'r duedd ganlynol:</p> <p>Defnydd cyfieithu (<i>ac eithrio Rwsieg ac Wcreineg</i>)</p> <table border="1" data-bbox="808 1018 1509 1219"> <thead> <tr> <th></th> <th>Cyfanswm yr Achosion</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>2024-25</td> <td>1,214</td> </tr> <tr> <td>2023-24</td> <td>967</td> </tr> <tr> <td>2022-23</td> <td>943</td> </tr> <tr> <td>2021-22</td> <td>705</td> </tr> </tbody> </table> <p>Mae hyn yn awgrymu bod cyflwyno cyfieithu ar y pryd dros fideo wedi cynyddu'r defnydd cyffredinol o</p>		Cyfanswm yr Achosion	2024-25	1,214	2023-24	967	2022-23	943	2021-22	705		
	Cyfanswm yr Achosion													
2024-25	1,214													
2023-24	967													
2022-23	943													
2021-22	705													

Amcan	Nodwedd (ion) Gwarchoddedig a grwpiau eraill yr effeithir arnynt.	Gwaith a wnaed yn ystod 2024-25	Cyfrannu at yr amcanion Lles/galluogi'r Strategaeth Iechyd a Gofal	Safonau Iechyd a Gofal a Changhennau Polisi Ychwanegol
		<p>gyfieithu ar y pryd, sy'n golygu bod cleifion bellach yn derbyn hyn ac efallai na fyddent wedi'i wneud yn y gorffennol. Mae hyn wedi'i gyflawni wrth leihau costau ar yr un pryd.</p> <p>Lle mae angen cyfathrebu, mae cyfieithu ar y pryd proffesiynol effeithiol yn gwbl hanfodol er mwyn galluogi diagnosis effeithiol, gan sicrhau bod cleifion yn deall y triniaethau maen nhw'n eu derbyn ac yn gallu rhoi caniatâd gwybodus, yn ogystal â deall unrhyw anghenion ôl-ofal.</p> <p>Yr ieithoedd mwyaf poblogaidd ar gyfer cyfieithu ar y pryd yn 2024-25 oedd Pwyleg (32%), Dari (10%), Bwlgareg (10%), Arabeg (9%), Wcreineg (7%), Bengaleg (5%) ac Iaith Arwyddion Prydain (BSL) (3%).</p>		

		<p>Technolegau Clyw Cynorthwyol Mae technolegau Clyw Cynorthwyol yn cynorthwyo'r rhai sy'n drwm eu clyw (i ddefnyddwyr cymhorthion clyw a rhai nad ydynt yn eu defnyddio). Roedd gan y bwrdd iechyd rywfaint o allu technolegol eisoes i alluogi hyn, ond ni chafodd ei ddefnyddio'n eang. Felly, nododd archwiliad o holl safleoedd BIAP, er bod defnydd y dechnoleg sydd ar gael ar draws safleoedd yn gymharol dda, fod bylchau mewn dealltwriaeth ar gyfer Dolenni Clyw a Gwrandawyr Digidol.</p> <p>O ganlyniad i'r ymarfer hwn, prynwyd unedau ychwanegol yn ystod 2024-25 ac mae 100% o'n prif safleoedd ysbytai yn eu defnyddio. Rydym yn mynd i'r afael â'r blwch hyfforddi yn 2025-26 i sicrhau bod pob adran yn gwybod sut i ddefnyddio'r technolegau cymorth clyw sydd ar gael.</p> <p>Mae hwyluso cyfathrebu â chleifion sy'n drwm eu clyw yn hanfodol ar gyfer eu gofal effeithiol yn yr un modd â chyfieithu ar y pryd, yn ogystal â lleihau straen i'r claf. Mae ei gwneud hi'n haws i staff gyfathrebu hefyd yn lleihau'r angen i staff</p>		
--	--	--	--	--

Amcan	Nodwedd (ion) Gwarchoddedig a grwpiau eraill yr effeithir arnynt.	Gwaith a wnaed yn ystod 2024-25	Cyfrannu at yr amcanion Lles/galluogi'r Strategaeth Iechyd a Gofal	Safonau Iechyd a Gofal a Changhennau Polisi Ychwanegol
		<p>godi eu lleisiau, gan leihau straen a gwella cysur.</p> <p>Gwelliannau Mynediad i'r Safle yn Ysbyty Bronllys</p> <p>Yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2025, gwnaed amrywiaeth o welliannau Mynediad yn ysbyty Bronllys, sef safle mwyaf BIAP o ran nifer y staff sydd wedi'u lleoli yno. Roedd y gwelliannau hyn yn cynnwys gwelliannau i gyrbau, ail-wynebu llwybrau cerdded, ffyrdd a meysydd parcio yn ogystal â gosod llwybr newydd a rhai gwelliannau i oleuadau.</p> 		


Amcan	Nodwedd (ion) Gwarchoddedig a grwpiau eraill yr effeithir arnynt.	Gwaith a wnaed yn ystod 2024-25	Cyfrannu at yr amcanion Lles/galluogi'r Strategaeth Iechyd a Gofal	Safonau Iechyd a Gofal a Changhennau Polisi Ychwanegol
		<p>Y bwriad yw adeiladu ar y datblygiadau hyn yn y dyfodol drwy hwyluso symudiad staff, cleifion ac ymwelwyr ymhellach o fewn y safle ond hefyd i'r safle ei hun.</p> <p>Yn ogystal â gwella mynediad at ein gwasanaethau i gleifion anabl ac oedrannus, gall y gwelliannau mynediad hyn leihau'r risg o ddamweiniau i'r holl staff ac ymwelwyr a gwella llif cleifion ar draws y safle.</p> <p>Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Rhywedd Rydym wedi parhau i gyflwyno ein sesiynau Ymwybyddiaeth Rhywedd (10 sesiwn i 116 o unigolion am y flwyddyn) sy'n parhau i gael eu cyhoeddi a'u hyrwyddo drwy dudalennau mewnwyd staff y Bwrdd Iechyd.</p>		


Amcan	Nodwedd (ion) Gwarchoddedig a grwpiau eraill yr effeithir arnynt.	Gwaith a wnaed yn ystod 2024-25	Cyfrannu at yr amcanion Lles/galluogi'r Strategaeth Iechyd a Gofal	Safonau Iechyd a Gofal a Changhennau Polisi Ychwanegol
		<p>Mae'r adborth ar y sesiwn hon wedi bod yn gadarnhaol iawn, gydag un mynychwr yn ei disgrifio fel "Roedd yn ennyn diddordeb" ac un arall yn "Diddorol a llawn mewnwelediad go iawn", gyda 82% yn nodi bod yr hyfforddiant wedi cynyddu eu gwybodaeth am y pwnc yn sylweddol a 0% yn nodi eu bod yn anfodlon.</p> <p>O ganlyniad i ddyfarniad y Goruchaf Lys yn 2025 ar y diffiniad o "Rhyw" mewn perthynas â'r Ddeddf Cydraddoldeb, bydd yr hyfforddiant hwn yn cael ei adolygu i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r gofynion cyfredol.</p>		



		<p>Hyfforddiant Pencampwr Anableddau Dysgu Cynhaliodd yr Academi Gofal Sylfaenol a Chymunedol hyfforddiant Hyrwyddwr Anabledd Dysgu gyda 5 sesiwn ar draws y Bwrdd Iechyd yn ystod y flwyddyn.</p> <p>Cylchlythyrau Hyfforddiant Rheolaidd Anfonir negeseuon rheolaidd at yr holl staff yn hysbysebu cyfleoedd hyfforddi ad hoc nad ydynt yn orfodol ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i Gydraddoldeb.</p> <p>Mae hyfforddiant yn y meysydd hyn yn sicrhau bod staff yn deall sut i ddiwallu anghenion yr ystod amrywiol o gleifion sydd dan eu gofal, ac yn hyderus yn deall yr hyn a ofynnir a'r hyn a ddisgwylir ganddynt.</p>		
--	--	---	--	--

Amcan	Nodwedd (ion) Gwarchoddedig a grwpiau eraill yr effeithir arnynt.	Gwaith a wnaed yn ystod 2024-25	Cyfrannu at yr amcanion Lles/galluogi'r Strategaeth Iechyd a Gofal	Safonau Iechyd a Gofal a Changhennau Polisi Ychwanegol																												
		<table border="1"> <thead> <tr> <th data-bbox="824 432 958 448">A</th> <th data-bbox="958 432 1267 448">B</th> <th data-bbox="1267 432 1368 448">C</th> <th data-bbox="1368 432 1527 448">D</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td data-bbox="824 448 958 512">11 Understanding Hate Crime Awareness</td> <td data-bbox="958 448 1267 512">Held virtually, this FREE short awareness session will introduce you to hate crime across all of the protected groups. Join one of Victim Support's Hate Crime Training & Engagement Officers for a 2 hour session and understand in more depth the challenges facing these groups when experiencing and reporting hate crime. And importantly, how YOU can help. Suitable for those living or working in Mid and South West Wales.</td> <td data-bbox="1267 448 1368 512">Zoom</td> <td data-bbox="1368 448 1527 512">Tuesday 18th June 2024 11am-12pm</td> </tr> <tr> <td data-bbox="824 512 958 544">12 Online Hate Crime</td> <td data-bbox="958 512 1267 544">The sessions seeks to debunk myths around how platforms manage hate, explore the impact of online harms such as hate, and to share practical advice on how to tackle online hate.</td> <td data-bbox="1267 512 1368 544">Zoom</td> <td data-bbox="1368 512 1527 544">Thursday 20th June 2024 10am-12pm</td> </tr> <tr> <td data-bbox="824 544 958 576">13 Safeguarding Adults 2024 Conference</td> <td data-bbox="958 544 1267 576">The Safeguarding Adults 2024 conference is an essential meeting that brings together professionals from various sectors to discuss and address important issues related to safeguarding adults at risk of harm. This conference aims to raise awareness, share best practices, and collaborate on strategies to protect adults at risk of abuse or neglect.</td> <td data-bbox="1267 544 1368 576">Pendulum Hotel & Conference Centre Manchester</td> <td data-bbox="1368 544 1527 576">Thursday 26th September 2024 09:30am - 16:30pm</td> </tr> <tr> <td data-bbox="824 576 958 671">13 Devis Choice - Free training for practitioners - Transforming the response to older victims of domestic abuse.</td> <td data-bbox="958 576 1267 671">The objectives of the research-led training session are to: Examine the prevalence, nature, and dynamics of domestic abuse in later life; Challenge myths and stereotypes, explore unconscious bias; Understand relationship typologies and care dynamics; Explore barriers and enablers to accessing justice and support for older victims, drawing on perspectives on individual, organisational and structural levels; Identify additional resources for ongoing practice development.</td> <td data-bbox="1267 576 1368 671">Teams</td> <td data-bbox="1368 576 1527 671">Wednesday 26th June 2024 or Wednesday 17th July 2024 10:00am-12:00pm</td> </tr> <tr> <td data-bbox="824 671 958 767">14 Devis Choice - Free training for practitioners - Identifying and responding to older victims of adult family abuse</td> <td data-bbox="958 671 1267 767">The objectives of the research-led training session are to: Gain insight into the complex dynamics of familial abuse in later life, including power and control tactics and the impact of dependency and interdependency; Recognise the physical, emotional, and behavioural signs and impacts of adult family violence in later life, including subtle indicators; Explore effective communication techniques for approaching and supporting older adults who may be experiencing adult family violence, with an emphasis on person-centred responses.</td> <td data-bbox="1267 671 1368 767">Teams</td> <td data-bbox="1368 671 1527 767">Monday 9th September 2024 10:00am-12:00pm</td> </tr> <tr> <td data-bbox="824 767 958 863">15 Devis Choice - Free training for practitioners - Older victims: the co-existence of Dementia and domestic abuse.</td> <td data-bbox="958 767 1267 863">The objectives of the research-led training session are to: Understand the research underpinning the focus of dementia and domestic abuse; Identify the impacts and dynamics of domestic abuse, and harm, where dementia is a feature; Understand the role of the Mental Capacity Act 2005, and 'best interest' decision making, in response to the co-existence of dementia and domestic</td> <td data-bbox="1267 767 1368 863">Teams</td> <td data-bbox="1368 767 1527 863">Tuesday 24th September 2024 10:00am-12:00pm</td> </tr> </tbody> </table>	A	B	C	D	11 Understanding Hate Crime Awareness	Held virtually, this FREE short awareness session will introduce you to hate crime across all of the protected groups. Join one of Victim Support's Hate Crime Training & Engagement Officers for a 2 hour session and understand in more depth the challenges facing these groups when experiencing and reporting hate crime. And importantly, how YOU can help. Suitable for those living or working in Mid and South West Wales.	Zoom	Tuesday 18th June 2024 11am-12pm	12 Online Hate Crime	The sessions seeks to debunk myths around how platforms manage hate, explore the impact of online harms such as hate, and to share practical advice on how to tackle online hate.	Zoom	Thursday 20th June 2024 10am-12pm	13 Safeguarding Adults 2024 Conference	The Safeguarding Adults 2024 conference is an essential meeting that brings together professionals from various sectors to discuss and address important issues related to safeguarding adults at risk of harm. This conference aims to raise awareness, share best practices, and collaborate on strategies to protect adults at risk of abuse or neglect.	Pendulum Hotel & Conference Centre Manchester	Thursday 26th September 2024 09:30am - 16:30pm	13 Devis Choice - Free training for practitioners - Transforming the response to older victims of domestic abuse.	The objectives of the research-led training session are to: Examine the prevalence, nature, and dynamics of domestic abuse in later life; Challenge myths and stereotypes, explore unconscious bias; Understand relationship typologies and care dynamics; Explore barriers and enablers to accessing justice and support for older victims, drawing on perspectives on individual, organisational and structural levels; Identify additional resources for ongoing practice development.	Teams	Wednesday 26th June 2024 or Wednesday 17th July 2024 10:00am-12:00pm	14 Devis Choice - Free training for practitioners - Identifying and responding to older victims of adult family abuse	The objectives of the research-led training session are to: Gain insight into the complex dynamics of familial abuse in later life, including power and control tactics and the impact of dependency and interdependency; Recognise the physical, emotional, and behavioural signs and impacts of adult family violence in later life, including subtle indicators; Explore effective communication techniques for approaching and supporting older adults who may be experiencing adult family violence, with an emphasis on person-centred responses.	Teams	Monday 9th September 2024 10:00am-12:00pm	15 Devis Choice - Free training for practitioners - Older victims: the co-existence of Dementia and domestic abuse.	The objectives of the research-led training session are to: Understand the research underpinning the focus of dementia and domestic abuse; Identify the impacts and dynamics of domestic abuse, and harm, where dementia is a feature; Understand the role of the Mental Capacity Act 2005, and 'best interest' decision making, in response to the co-existence of dementia and domestic	Teams	Tuesday 24th September 2024 10:00am-12:00pm		
A	B	C	D																													
11 Understanding Hate Crime Awareness	Held virtually, this FREE short awareness session will introduce you to hate crime across all of the protected groups. Join one of Victim Support's Hate Crime Training & Engagement Officers for a 2 hour session and understand in more depth the challenges facing these groups when experiencing and reporting hate crime. And importantly, how YOU can help. Suitable for those living or working in Mid and South West Wales.	Zoom	Tuesday 18th June 2024 11am-12pm																													
12 Online Hate Crime	The sessions seeks to debunk myths around how platforms manage hate, explore the impact of online harms such as hate, and to share practical advice on how to tackle online hate.	Zoom	Thursday 20th June 2024 10am-12pm																													
13 Safeguarding Adults 2024 Conference	The Safeguarding Adults 2024 conference is an essential meeting that brings together professionals from various sectors to discuss and address important issues related to safeguarding adults at risk of harm. This conference aims to raise awareness, share best practices, and collaborate on strategies to protect adults at risk of abuse or neglect.	Pendulum Hotel & Conference Centre Manchester	Thursday 26th September 2024 09:30am - 16:30pm																													
13 Devis Choice - Free training for practitioners - Transforming the response to older victims of domestic abuse.	The objectives of the research-led training session are to: Examine the prevalence, nature, and dynamics of domestic abuse in later life; Challenge myths and stereotypes, explore unconscious bias; Understand relationship typologies and care dynamics; Explore barriers and enablers to accessing justice and support for older victims, drawing on perspectives on individual, organisational and structural levels; Identify additional resources for ongoing practice development.	Teams	Wednesday 26th June 2024 or Wednesday 17th July 2024 10:00am-12:00pm																													
14 Devis Choice - Free training for practitioners - Identifying and responding to older victims of adult family abuse	The objectives of the research-led training session are to: Gain insight into the complex dynamics of familial abuse in later life, including power and control tactics and the impact of dependency and interdependency; Recognise the physical, emotional, and behavioural signs and impacts of adult family violence in later life, including subtle indicators; Explore effective communication techniques for approaching and supporting older adults who may be experiencing adult family violence, with an emphasis on person-centred responses.	Teams	Monday 9th September 2024 10:00am-12:00pm																													
15 Devis Choice - Free training for practitioners - Older victims: the co-existence of Dementia and domestic abuse.	The objectives of the research-led training session are to: Understand the research underpinning the focus of dementia and domestic abuse; Identify the impacts and dynamics of domestic abuse, and harm, where dementia is a feature; Understand the role of the Mental Capacity Act 2005, and 'best interest' decision making, in response to the co-existence of dementia and domestic	Teams	Tuesday 24th September 2024 10:00am-12:00pm																													

<p>4. Yn unol â'r Model <i>Gwella Gyda'n Gilydd</i> / Dyfodol y Gweithlu, sicrhau bod Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn gyflogwr delfrydol ar gyfer unigolion ag anghenion amrywiol.</p>	<p>Sylfaenol Anabledd Oedran</p> <p>Atodol Rhyw</p> <p>Beichiogrwydd a Mamolaeth</p>	<p>Addewid Cyflogwr sy'n Gyfeillgar i Oedran</p> <p>Mae gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys weithlu cymharol hŷn, tuedd y disgwylir iddi gynyddu yn y blynyddoedd i ddod (gweler yr adran isod ar Ddata Cydraddoldeb am fwy o fanylion).</p> <p></p> <p>Yn unol â hynny, rydym wedi cydnabod pwysigrwydd hanfodol sicrhau bod aelodau hŷn ein gweithlu yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu. Gan ddechrau yn yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb hwn ac mewn adroddiadau yn y dyfodol byddwn yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwahanol ffyrdd y mae ein sefydliad yn dangos yr ymrwymiad hwn. Fel rhan o'n hymrwymiad, eleni rydyn ni wedi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Datblygu pecyn cymorth yn benodol i gefnogi ystyriaethau ymddeol, gan gynnwys ymddeol-a-dychwelyd a rhan-ymddeoliad. • Mae Sgwrsio i Newid (sharepoint.com) a Codi Llais Heb Ofn yn darparu sianeli i staff godi pryderon. • Mae ESR yn casglu data defnyddiadwy ynghylch demograffig oedran staff. 	<p>Dyfodol y Gweithlu: Gall cymryd rhan mewn cynlluniau achredu yn y gweithle ddenu ymgeiswyr newydd a gwella'r gallu i gadw staff presennol.</p> <p>Trawsnewid mewn Partneriaeth: Mae rhoi cyfle i staff gyfrannu at ffrydiau gwaith sy'n eu poeni yn cynyddu buddsoddiad a'r gallu i gadw staff.</p>	<p>Staff ac Adnoddau Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth Mwy na Geiriau Cynllun Gweithredu LHDTC+</p>
--	--	--	--	---

		<p>Adroddir ar hyn yn gyhoeddus yn yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau bod ein hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb a Rhywedd yn cynnwys enghreifftiau sy'n berthnasol i wahaniaethu ar sail oedran, sydd hefyd wedi'i amlygu yn ein proses a'n templed Asesu Effaith ar Gydraddoldeb. • Datblygwyd pecynnau cymorth AD ar gyfer Gweithio Hyblyg, Rheoli Presenoldeb yn y Gwaith ac Addasiadau Rhesymol i hwyluso eu gweithrediad. • Sesiynau dysgu wedi'u hyrwyddo ar Wahaniaethu Oedran a rhan-ymddeoliad: • Mae gennym Linell Gymorth Menopos 24/7 trwy Vivup, ac mae Caffi Menopos BIAP yn parhau i gyfarfod. <p>Hyderus o ran Anabledd Fe wnaethon ni gyflawni lefel gyntaf y Cynllun Hyderus o ran Anabledd (ymrwymedig) a byddwn yn datblygu cynllun gweithredu yn 2025-26 i gyrraedd y lefel nesaf dros gyfnod y flwyddyn ariannol nesaf.</p> 		
--	--	---	--	--

Cefnogi ein Staff LHDTC+ Rydym wedi parhau i nodi Digwyddiadau Balchder o fewn y sir drwy fynychu digwyddiadau lleol e.e. Balchder Aberhonddu (yn y llun isod).



Fe wnaethon ni hefyd nodi Mis Hanes LHDT drwy gymryd rhan mewn digwyddiad ar-lein GIG Cymru a chyd-gynnal Cwis Balchder GIG Cymru 2024.



Hyrwyddo a Chefnogi Rhwydweithiau Staff

Rydym wedi parhau i hyrwyddo cyfleoedd i staff o amrywiaeth o grwpiau gwarchoddedig rwydweithio â'u cydweithwyr ar draws BIAP a'r GIG ehangach.



Mae'r cyfleoedd hyn wedi cynnwys Rhwydwaith Iaith Arwyddion Prydain a Thrwm eu Clyw GIG Cymru Gyfan, Rhwydwaith Staff Niwroamrywiol BIAP a digwyddiad Rhwydweithio Staff Cenedlaethol – a fynychwyd gan lawer o staff BIAP, a gadeiriodd un o'r digwyddiadau – ymhlith eraill.



Mae hyn yn rhan o'r rhaglen gyfathrebu ehangach a pharhaus ynghylch Cydraddoldeb lle mae ystod o ddigwyddiadau a chyfleoedd Cydraddoldeb yn cael eu hyrwyddo'n eang i staff BIAP.

Digwyddiad Rhwydwaith
Staff Cymru Gyfan.

Cadw'r dyddiad

8 Mai

Dros TEAMS - 9.30-4




Sganiwch i archebu

The collage features several posters related to trans rights and awareness. On the left, a poster titled 'Transcending Boundaries: ONLINE' includes the text 'Celebrating Transgender Awareness' and 'Trans Awareness Week: 14-19/05/24'. It also lists 'National Trans Day' and 'Trans Awareness Week: 14-19/05/24'. In the center, there is a 'WHITE RIBBON' logo with the text 'Wastadly Wastadly' below it. On the right, there is a poster with the text 'We are not just people with a gender identity, we are people with a gender identity' and 'We are not just people with a gender identity, we are people with a gender identity'. Below this, there is a list of social media handles: '@transrightsuk', '@transrightsuk', and '@transrightsuk'. At the bottom, there is a list of social media handles: '@transrightsuk', '@transrightsuk', and '@transrightsuk'.

Rhaglen Mentora o Chwith 2024-25
Datblygiad newydd a chyffrous ar gyfer eleni, mae'r cynllun hwn, wedi'i fodelu ar raglenni tebyg a gynhelir mewn sefydliadau eraill, yn rhoi cyfle i staff fentora gweithiwr uwch, gan roi cyfle unigryw iddynt ddysgu am y problemau a'r profiadau sy'n wynebu staff.

		 <p>Applications for PTHB Reverse Mentoring Programme 24/25</p> <p><small>PTHB Reverse Mentoring Programme 24/25 Would you relish the opportunity to mentor a senior colleague? Then apply to join this round of Reverse Mentoring which will have a theme of Wellbeing and Staff Retention.</small></p> <p><small>What is Reverse Mentoring? Similar to a back-to-the-floor experience, reverse mentoring is simply the opposite format of traditional mentoring, where the senior employee is mentored by a younger or more 'junior' employee. Aka, mentoring in reverse. The process recognises that there are skills gaps and opportunities to learn on both sides of a mentoring relationship.</small></p> <p><small>What does it involve? For example, a reverse mentor (you) would have regular touch points with, and may accompany that senior employee to meetings, observe behaviours and provide constructive feedback regarding issues and points that are observed.</small></p> <p><small>These may be born out of your lived experiences as an employee for PTHB. You will provide an insight into the stresses, difficulties and barriers you may have faced, with opportunities to explore how the more senior colleague could learn from and adapt their future leadership approach to ensure they are able to look after their own and others' wellbeing, find ways to improve retention of staff and to gain an insight into the breadth of skills/knowledge in the workforce.</small></p> <p><i>Gweler hefyd y gwaith a wnaed dan gefnogaeth y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (gweler isod).</i></p> <p>Mae'r digwyddiadau a'r rhaglenni hyn yn rhoi cyfleoedd i staff ddysgu am brofiad amrywiol cydweithwyr a chleifion, ac mae'r rhwydweithiau'n darparu modd i staff gefnogi ei gilydd yn ogystal â gweithredu fel bwrdd sain ar gyfer polisiau a phrosesau'r bwrdd iechyd.</p>		
5. Gwella gallu'r bwrdd iechyd i ddiwallu anghenion crefyddol ei	Sylfaenol Crefydd a Chred Atodol	Gan ragweld y bydd mwy o waith yn cael ei wneud yn y maes hwn yn ystod 2025-26, mae gwaith cychwynnol wedi'i wneud i asesu'r ddarpariaeth bresennol, sy'n isel ar draws BIAP. Nid oes gan unrhyw safleoedd ofod Aml-ffydd dynodedig ar hyn o bryd, er bod	Dyfodol y Gweithlu: Mae rhoi cyfle i staff gyfrannu at ffrydiau gwaith sy'n eu poeni yn cynyddu	Gofal ag Urddas Gofal Unigol Staff ac Adnoddau

<p>staff a'i gleifion.</p>	<p>Hil ac Ethnigrwydd</p>	<p>darpariaeth o'r fath wedi'i hymgorffori yn nyluniad prosiect Campws Gogledd Powys.</p> <p>Mae darpariaeth ar safleoedd presennol yn anodd oherwydd natur y bwrdd iechyd gyda safleoedd bach ac adeiladau hen yn cyfyngu ar opsiynau a niferoedd isel o staff a nifer isel o ymwelwyr sy'n golygu anaml y rhoddir blaenoriaeth i ddarpariaeth. Bydd gwaith yn y dyfodol yn canolbwyntio ar sicrhau bod y ddarpariaeth sydd ar gael yn cael ei hysbysebu'n dda ac ar ei gwneud hi'n glir bod staff yn gallu gwneud defnydd rhesymol o ystafelloedd tawel/cyfarfod at y diben hwn.</p> <p>Fel cam cychwynnol, mae gwybodaeth am ofynion defodol wedi'i rhannu ar Sharepoint ac mae gwybodaeth am ddiwallu anghenion crefyddol wedi'i hymgorffori yn ein sesiwn hyfforddi Cydraddoldeb i Reolwyr.</p> 	<p>buddsoddiad a'r gallu i gadw staff.</p> <p>Canolbwyntio ar Les: Parchu anghenion ysbrydol ein staff a'n cleifion.</p>	<p>Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth</p>
----------------------------	---------------------------	---	--	--

<p>6. Byddwn yn datblygu diwylliant sefydliadol sy'n gynhwysol ac yn gefnogol i'n holl staff, ac sy'n mabwysiadu dull dim goddefgarwch tuag at aflonyddu ar staff gan gleifion neu eraill, gan gynnwys aflonyddu rhywiol.</p>	<p>Sylfaenol Rhyw Atodol Oedran Hil ac Ethnigrwydd</p>	<p>Gweler yr adrannau uchod am fanylion Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Rhywedd, Cyflogwyr sy'n Gyfeillgar i Oedran a chynlluniau Hyderus o ran Anabledd. Gweler hefyd y gwaith a wnaed dan gefnogaeth y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (gweler isod).</p> <p>Hyfforddiant Cydraddoldeb i Reolwyr ac Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb</p> <p>Mae'r sesiwn hyfforddi hon yn rhan safonol a gorfodol o raglen Hyfforddi Rheolwyr BIAP. Mae hyn yn golygu bod pob rheolwr yn derbyn sesiwn uwch sy'n canolbwyntio ar nodi gwahaniaethu yn y gweithle, gan ddarparu Addasiadau Rhesymol ar gyfer staff anabl, gyda 66 o unigolion newydd yn cwblhau'r hyfforddiant hwn yn 2024-25.</p> <p>Mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol iawn gydag un mynychwr yn disgrifio'r sesiwn fel a ganlyn:</p> <p style="text-align: center;">“Dyma’r hyfforddiant Cydraddoldeb/Amrywiaeth gorau i mi erioed ei fynychu yn fy ngyrfa.”</p> <p>Mae hyfforddiant hefyd wedi'i ddarparu ar Asesu Effaith ar Gydraddoldeb i 19 o unigolion</p>	<p>Dyfodol y Gweithlu: Sicrhau bod BIAP yn gyflogwr o ddewis i staff yn lleol a thu hwnt.</p>	<p>Staff ac Adnoddau</p>
---	--	---	---	------------------------------

		<p>sy'n gweithio'n bennaf yn y Gyfarwyddiaeth Pobl a Diwylliant.</p> <p>Hyfforddiant Rhagfarn Ddiarwybod ac Anymwybodol</p> <p>Sesiwn newydd yw hon a gyflwynir "yn fewnol" gan dîm Cydraddoldeb a'r Gymraeg BIAP i 30 o unigolion yn ystod 2024-25 ar draws BIAP a chydweithwyr yng Nghyngor Sir Powys. Gan gydnabod y sail dystiolaeth gyfyngedig ar gyfer "codi ymwybyddiaeth" ar Ragfarn Anymwybodol mewn perthynas ag e.e. gwahaniaethu ar sail hil, mae'r sesiwn hon yn canolbwyntio yn hytrach ar y darlun ehangach o wybyddiaeth ddynol a rôl rhagfarn wrth wneud penderfyniadau, ac ar dechnegau i rymuso staff i osgoi sefyllfaoedd lle mae risg o ragfarn.</p> <p>Grŵp Adolygu Polisi'r Gweithlu</p> <p>Mae'r grŵp adolygu polisi gweithlu lleol yn cynnwys cynrychiolaeth drwy'r Arweinydd Gwasanaeth dros Gydraddoldeb a'r Gymraeg ac mae'n cael ei gadeirio ar y cyd gan y Pennaeth Pobl: Partneru Busnes a Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a chynrychiolydd undeb llafur. Mae hyn yn ein galluogi i ymgorffori asesiadau effaith cydraddoldeb yn ein prosesau gwneud</p>		
--	--	--	--	--

		<p>penderfyniadau polisi ac yn fwy diweddar mae wedi ein galluogi i gynnwys proses wirio sy'n ymwneud â'r argymhellion gwrth-hiliol i sicrhau bod yr argymhellion hyn yn cael eu hymgorffori mewn unrhyw bolisiau gweithlu sydd newydd eu datblygu neu eu diwygio.</p> <p>Codi Llais Heb Ofn</p> <p>Mae fframwaith Codi Llais Heb Ofn yn gynllun ledled Cymru sy'n anelu at sicrhau bod staff y GIG yn teimlo y gallant godi neu adrodd pryderon heb roi eu hunain mewn unrhyw fath o risg bersonol neu broffesiynol. Mae hyn yn cynnwys pryderon diogelwch ond hefyd pryderon ynghylch ymddygiad, gan gynnwys ymddygiad gwahaniaethol. Nodwyd 13 o ofynion yn Adran 6 o Fframwaith SUS ac mae'r rhain bellach wedi'u cyflawni neu fel arall wedi'u hystyried yn 'fusnes fel arfer' ac wedi'u rhoi mewn cyflwr monitro hirdymor. Mae'r rhain yn cynnwys y Polisiau canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae Cadeirydd y Bwrdd wedi'i benodi'n Hyrwyddwr yr Aelodau Annibynnol gyda Chyfarwyddwr Pobl a Diwylliant yn Arweinydd Gweithredol. • Mae Codi Llais Heb Ofn yn rhan o adroddiad y Cyfarwyddwr Gweithredol 		
--	--	---	--	--

		<p>dros Bobl a Diwylliant yn agenda reolaidd y Pwyllgor Gweithlu a Diwylliant, ac yn flynyddol fel gofyniad o fewn Fframwaith SUS. Defnyddir elfennau penodol o'r arolwg staff cenedlaethol sy'n ymwneud â chodi llais yn ogystal ag unrhyw ddata a themâu ynghylch pryderon a godwyd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Crëwyd porth 'Ein Llais' ar y fewnrwyd (gyda thudalennau tebyg ar gyfer staff ar y we allanol) er mwyn cael un lle i staff ei ddefnyddio pe byddent am godi pryder yn ffurfiol. Mae'r tudalennau'n cynnwys elfennau fel DATIX, y Porth Diogelu, a llwybrau'r Gweithlu, yn ogystal â darparu gwybodaeth a ffurflen i'w llenwi dan Weithdrefn GIG Cymru i Staff Godi Pryderon. • Mae BIAP wedi comisiynu VIVup fel ei ddarparwr Rhaglen Cymorth i Weithwyr i gynnal gwasanaeth chwythu'r chwiban ar brawf am 12 mis. Bydd hyn yn darparu pwynt cyswllt allanol i flaenoriaethu pryderon a'u dyrannu i'r uwch berson cywir o fewn y sefydliad. • Mae'r dull wedi cael ei hyrwyddo'n rheolaidd drwy bosteri, y rhwydwaith Sgwrsio i Newid, sesiynau briffio'r sefydliad, a phan gaiff ei hyrwyddo 		
--	--	--	--	--

		<p>gweithgaredd cysylltiedig fel Arolwg Staff y GIG.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflwynwyd cwrs hyfforddi drwy gydol hydref a gaeaf 2024/25 sy'n gwahodd unigolion mewn timau i ddeall diogelwch seicolegol a'r dull o godi llais yn BIAP. Y bwriad yw rhoi pecyn cymorth syml o drafodaethau i'r cyfranogwr i'w cael yn eu timau eu hunain i helpu creu diwylliant o godi llais, tra hefyd yn codi ymwybyddiaeth o'r mecanweithiau ffurfiol. • Yn ogystal â'r cwrs hyfforddi a nodir uchod, mae codi llais heb ofn wedi'i gynnwys yn benodol yn rhaglen y Rheolwr, ymsefydlu corfforaethol, ac fel thema o fewn y Rhaglen Trochi Arweinyddiaeth Glinigol. • Mae Grŵp Llywio Codi Llais Heb Ofn wedi'i sefydlu sy'n cynnwys uwch arweinwyr o bob cwr o'r sefydliad. Bydd y grŵp yn cyfarfod bob chwarter gyda'r nod o fonitro a gwneud argymhellion ar gyfer camau gweithredu i wella ein diwylliant o godi llais yn barhaus. 		
7. Sicrhau bod ein mecanweithiau u adborth yn	Pob Nodwedd Gwarchodedig .	Cafodd yr achos busnes ar gyfer platfform PROMs digidol sefydliadol ei ohirio ddiwedd 2023-24, fodd bynnag mae'r gwaith hwn	Trawsnewid mewn Partneriaeth: Rhoi cyfle i'n defnyddwyr	Gofal Unigol

<p>casglu barn staff a chleifion o bob grŵp.</p>		<p>bellach wedi ailddechrau o fis Chwefror 2025 ymlaen.</p> <p>Y ffocws cychwynnol yw llwybrau iechyd meddwl gan fod mwy o'r llwybr yn cael ei ddarparu o fewn Powys (o'i gymharu â llwybrau iechyd corfforol lle mae cleifion yn aml yn derbyn triniaeth y tu allan i'r sir). Yn y pen draw, bydd yr Adnodd Data Cenedlaethol yn galluogi BIAP i gael mynediad at ddata PROMS yn ganolog ar gyfer cleifion Powys sy'n cael eu trin mewn mannau eraill, ond yn y cyfamser rydym wedi rhannu codau post Powys gyda BIPBA ac maen nhw'n gweithio gyda'u cyflenwr PROMs i nodi cleifion Powys fel y gallant rannu'r data gyda ni. Os bydd hyn yn llwyddiannus, byddwn yn anelu at wneud yr un peth gyda byrddau iechyd eraill. Rydym hefyd yn ceisio cael mynediad at ddata PROMs ar gyfer cleifion Powys sy'n cael eu trin gan rai o'n prif ddarparwyr yn Lloegr hefyd.</p>	<p>gwasanaeth a'n staff effeithio ar gyfeiriad y bwrdd iechyd ar lefel ficro a macro.</p> <p>Digidol yn Gyntaf Defnyddio technolegau digidol i gasglu adborth gan ystod o randdeiliaid.</p>	
<p>8. Cyflawni'r camau gweithredu a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu lleol Gwrth-</p>		<p>(Gweler yr adran bwrpasol isod)</p>	<p>Dyfodol y Gweithlu: Sicrhau bod BIAP yn gyflogwr o ddewis i staff yn lleol a thu hwnt.</p> <p>Canolbwyntio ar Les:</p>	<p>Staff ac Adnoddau Gofal Unigol</p>

Hiliaeth lleol BIAP.			Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd o fewn y grwpiau hyn.	
9. Gweithredu ein Strategaeth Cymraeg mewn Gofal Iechyd	Y Gymraeg / Pob Nodwedd Gwarchodedig.	<p>Mae gwaith i gyflawni'r strategaeth eleni wedi cynnwys y meysydd allweddol canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno gwasanaeth asesu swyddi gwag newydd. • Parhau i gynnis hyfforddiant Cymraeg i Reolwyr. • Hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi gyda niferoedd record yn mynychu hyfforddiant Iaith Gymraeg. • Gwelliannau i brosesau sy'n ymwneud ag uwchlwytho dogfennau i'r wefan. • Adolygiad o'r ffordd rydym yn hysbysebu swyddi gwag yn Gymraeg. <p>Yn gyffredinol, mae'r bwrdd iechyd yn parhau i weithio i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau. Mae systemau ar waith i sicrhau bod y mwyafrif o'r safonau yn cael eu bodloni yn y mwyafrif o amgylchiadau. Mae'r bwrdd iechyd yn perfformio'n arbennig o dda mewn meysydd fel cyfathrebu a chyfryngau cymdeithasol, ac mewn meysydd lle mae systemau'n cael eu rheoli'n ganolog (e.e. prosesau recriwtio fel cynnig contractau, asesu sgiliau Cymraeg darpar ymgeiswyr a'u</p>	<p>Canolbwyntio ar Les:</p> <p>Gwella mynediad siaradwyr Cymraeg at wasanaethau Lles fel Silvercloud a Byw'n Dda Powys.</p> <p>Digidol yn Gyntaf Defnyddio technolegau digidol i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog.</p> <p>Dyfodol y Gweithlu Datblygu sgiliau dwyieithog ein gweithlu presennol ac yn y dyfodol.</p>	Staff ac Adnoddau Gofal Unigol Gofal ag Urddas

		<p>gwahodd i wneud cais yn Gymraeg/defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad).</p> <p>Am fanylion llawn am ein gweithgaredd yn y maes hwn yn ystod 2024-25, gweler Adroddiad Blynyddol y Gymraeg 2024-25 ar dudalennau'r Iaith Gymraeg ar ein gwefan, sydd hefyd yn gartref i'r Strategaeth Cymraeg mewn Gofal Iechyd.</p>		
10. Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau Parhau i fonitro'r bwlch cyflog cymharol yn BIAP a nodi unrhyw faterion sy'n codi.	Sylfaenol Rhyw Beichiogrwydd a Mamolaeth	Gweler Atodiad B.	Dyfodol y Gweithlu: Sicrhau bod BIAP yn gyflogwr o ddewis i staff yn lleol a thu hwnt.	Staff ac Adnoddau
11. Cyflog Ethnigrwydd Nodi a lliniaru neu fynd i'r afael ag unrhyw faterion sylfaenol sy'n cyfrannu at	Sylfaenol Hil ac Ethnigrwydd Atodol Crefydd a Chred	Gweler y Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth isod.	Dyfodol y Gweithlu: Sicrhau bod BIAP yn gyflogwr o ddewis i staff yn lleol a thu hwnt.	Staff ac Adnoddau

ganlyniadau cyflog anghyfartal i staff o wahanol gefndiroedd ethnig.				
--	--	--	--	--

Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

Fel rhan o Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn cynnal cynllun lleol i gofnodi a monitro sut y bydd yn gweithio'n lleol tuag at nod Cymru Wrth-Hiliol.

Arweinyddiaeth: Bydd y GIG yng Nghymru yn wrth-hiliol ac ni fydd yn derbyn unrhyw fath o wahaniaethu nac anghydraddoldeb i weithwyr na defnyddwyr gwasanaethau.	
Rhoi sicrwydd bod yr hyrwyddwyr cydraddoldeb gweithredol penodedig yn gweithio gyda rhwydweithiau staff Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i gyd-ddatblygu cynlluniau gwrth-hiliol blynyddol y sefydliad i gywiro anghydraddoldebau a nodwyd gan ffynonellau data'r gweithlu a chleifion	<p>Yn dilyn darpariaeth Safon Cydraddoldeb Hiliol Gweithlu Powys (SCHGP) gan Lywodraeth Cymru yn haf 2024, lansio Cynllun Cydraddoldeb Strategol BIAP 2024-2028 ac adolygu'r Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth cenedlaethol, mae Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth lleol BIAP wedi'i adolygu a'i ddiweddarau i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r sefyllfa ddiweddaraf. Mae'r cynllun wedi cael ei hyrwyddo a'i rannu ar draws y sefydliad ac mae staff wedi cael gwahoddiad i gyfrannu a rhoi sylwadau.</p> <p>Prif argymhellion y SCHGP oedd y dylai BIAP weithio i fynd i'r afael â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> - absenoldeb aelodaeth o fwrdd lleiafrifoedd ethnig - dilyniant staff lleiafrifoedd ethnig i raddau uwch - tebygolrwydd y bydd staff lleiafrifoedd ethnig yn cael eu penodi ar ôl y broses lunio rhestr fer

<p>e.e. Safon Cydraddoldeb Hiliol y Gweithlu</p>	<p>Mae ymwybyddiaeth ac aelodaeth o rwydwaith staff Lleiafrifoedd Ethnig BIAP (a rhwydweithiau staff eraill) wedi'u codi trwy hyrwyddo mewnol a'r ymgyrch ymsefydlu. Bydd rhwydwaith staff lleol cryf yn sicrhau bod staff BIAP o leiafrifoedd ethnig yn cael llais o fewn y sefydliad a'r cyfle i gyfrannu at gynlluniau a rhaglenni i wella canlyniadau i'r staff hyn o fewn y sefydliad.</p>
<p>Defnyddio fframweithiau deddfwriaethol sy'n bodoli eisoes i'w gwneud yn ofynnol i sefydliadau'r GIG ddatblygu cynlluniau gweithredu ar wrth-hiliaeth; ar gyfer cyflogaeth a darpariaeth gwasanaethau fel rhan benodol o'u dull ehangach o ymdrin â chydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth.</p> <p>Bydd cynnydd gyda gweithredu'r cynllun yn cael ei adrodd drwy'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) a'i fonitro drwy'r Cyfarfodydd Ansawdd Integredig, Perfformiad a Chyflenwi a mecanweithiau sicrhau polisi.</p>	<p>Caiff y Cynllun ei fonitro a'i adrodd i'r bwrdd a Llywodraeth Cymru fel rhan o'r Adroddiadau Blynyddol ar Gydraddoldeb, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru; mae hefyd wedi'i gynnwys yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig BIAP 2023-2026.</p> <p>Cynhwyswyd Adrodd ar y Bwlch Cyflog Ethnigrwydd gyntaf yn Adroddiad Blynyddol 2022-23 ac mae hyn yn parhau yn Adroddiad Blynyddol 2024-25 (Gweler Atodiad B).</p>

<p>Bydd holl aelodau Bwrdd y GIG yn dangos arweinyddiaeth gwrth-hiliol drwy eu hamcan amrywiaeth a chynhwysiant, er mwyn galluogi effaith ystyrion eu cynllun gwrth-hiliol sefydliadol.</p>	<p>Mae Amrywiaeth a Chynhwysiant yn amcanion personol i bob un o'n Haelodau Bwrdd ac maent yn cael cyfleoedd rheolaidd i ymgysylltu â chyfleoedd perthnasol, gan gynnwys hyfforddiant lleol ac allanol. Fe wnaethon nhw gyfrannu at ddiwygio'r cynllun Gwrth-hiliaeth.</p> <p>Mae Cynllun Mentora o Chwith Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (gweler uchod) yn rhoi cyfle i uwch staff, fel aelodau'r bwrdd, gael eu mentora gan aelodau staff iau, gan rannu eu profiadau bywyd go iawn fel gweithwyr ar draws y sefydliad. Mae hyn wedi'i dargedu'n benodol at staff BME drwy'r Rhwydwaith Staff perthnasol.</p>
<p>Camau Gweithredu Lleol / SCHGP:</p> <ul style="list-style-type: none"> - absenoldeb aelodaeth o fwrdd lleiafrifoedd ethnig - dilyniant staff lleiafrifoedd ethnig i raddau uwch - tebygolrwydd y bydd staff lleiafrifoedd ethnig yn cael eu penodi ar ôl y broses lunio rhestr fer 	<p>Yng ngoleuni argymhellion y SCHGP ynghylch data llunio rhestr fer, mae'r bwrdd iechyd wedi cynnal adolygiad manylach o'n data gweithlu i nodi a oes anghydraddoldebau o ran canlyniadau rhwng canlyniadau proffesiynol ar gyfer staff o wahanol gefndiroedd ethnig, a ble. Mae'r materion yn ymdrin â phob agwedd ar bolisi a phroses recriwtio i sicrhau eu bod yn wrth-hiliol ac yn gynhwysol. Ym mis Ebrill 2025 roedd hyn yn dal i gael ei rannu'n fewnol, fodd bynnag bydd ei argymhellion yn llywio ein dull gweithredu yn y dyfodol.</p> <p>Bydd adolygiad parhaus o brosesau Recriwtio yn cryfhau arfer yn y maes hwn ac yn sicrhau cysondeb a thegwch mewn prosesau penodi, gan ymgorffori arferion gorau'r diwydiant.</p> <p>Rydym wedi recriwtio i rôl Swyddog Gofal Bugeiliol Nyrsys Rhyngwladol, rôl unigryw o fewn cyfarwyddiaeth Pobl a Diwylliant sy'n ceisio sicrhau bod ein nyrsys a recriwtiwyd yn rhyngwladol yn cael eu sefydlu, eu cefnogi a'u meithrin yn effeithiol. Mae darparu aelod ymroddedig o staff cymorth i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â gofal bugeiliol ac anawsterau eraill a all godi pan fydd staff yn symud ar draws y byd i gael cyflogaeth yn sicrhau, yn y tymor byr, y bydd ein nyrsys sydd wedi cael addysg ryngwladol yn gallu integreiddio'n gyflym ac yn effeithiol i dimau clinigol BIAP; ac yn y</p>

	tymor hir, gobeithir y bydd gwella profiad ein staff sydd wedi cael addysg ryngwladol yn hybu cyfraddau cadw.
Gweithlu: Bydd staff yn gweithio mewn amgylcheddau diogel a chynhwysol, wedi'u hadeiladu ar arweinyddiaeth a chynghreiriaeth gwrth-hiliol dda, yn cael eu cefnogi i gyrraedd eu potensial llawn, a bydd staff a chynghreiriaid lleiafrifoedd ethnig; y ddau yn cael eu grymuso i nodi ac ymdrin ag arferion hiliol.	
Mae Byrddau, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Arbennig GIG Cymru a Fforwm Partneriaeth Cymru yn gweithredu argymhellion Archwiliad Polisi Gweithlu GIG Cymru annibynnol (Diverse Cymru, 2023), gan weithio gyda grwpiau staff Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i gefnogi eu cymhwyso'n effeithiol.	Er mwyn adlewyrchu egwyddorion Archwiliad Diverse Cymru o fewn polisiau gweithlu lleol, mae BIAP wedi sefydlu rhaglen dreigl o archwilio polisiau presennol yn erbyn egwyddorion eang argymhellion Diverse Cymru. Ym mis Ebrill 2025 roedd 14 polisi lleol wedi cael eu hasesu, tua 47% o gyfanswm y polisiau cymwys (30).
Bydd Sefydliadau Addysg Uwch (SAUau) a Sefydliadau'r GIG yn llunio rhaglenni addysg ar wrth-hiliaeth ar y cyd â phobl Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol. Gosod gofyniad ar bob aelod o staff y GIG a phob un o wirfoddolwyr y GIG a myfyrwyr i gwblhau	Cyhoeddwyd yr hyfforddiant a ddatblygwyd yn genedlaethol a'i ddarparu i BIAP tua diwedd y flwyddyn 2024-25. Nid oes data ar gael ar gyfer cyfraddau cwblhau ar ddiwedd 2024-25, fodd bynnag, ym mis Mai 2025, roedd 52.8% o aelodau staff wedi cwblhau'r hyfforddiant. Cyfrannodd staff BIAP hefyd at ddatblygiad yr hyfforddiant, sy'n egluro egwyddorion gwrth-hiliol i gyfranogwyr.

rhaglenni addysg ar wrth-hiliaeth ar eu ffurf newydd.	
Bydd pob un o sefydliadau'r GIG yn ymrwmo i fod yn rhan o'r Rhaglen Darpar Aelodau Bwrdd yn weithredol, gan sicrhau addysg, mentora a chymorth i gyfranogwyr a fydd yn dod o gefndir Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol. Academi Wales i weithio mewn partneriaeth â GIG Cymru a sefydliadau priodol eraill i ddatblygu a rhedeg Rhaglen i Ddarpar Aelodau Bwrdd.	Mae BIAP wedi ymrwmo i'r rhaglen Aelodau Bwrdd Darpar, ac wedi hyrwyddo cyfranogiad yn lleol drwy rannu gwybodaeth am y rhaglen gyda sefydliadau partner.
Data a Thystiolaeth: Bydd data mewn perthynas â hil, ethnigrwydd ac anfantais groestoriadol yn cael ei gasglu, ei rannu a'i ddefnyddio'n dryloyw fel mater o drefn, i lefelu anghydraddoldebau mewn iechyd a mynediad at wasanaethau iechyd, a rhoi sicrwydd bod GIG Cymru yn amgylchedd gwrth-hiliol a diogel i staff a chleifion.	
Bydd Byrddau, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Arbennig y GIG yn parhau i: <ul style="list-style-type: none"> - gwella ansawdd data'r gweithlu; - hwyluso a chefnogi casglu data yn erbyn 	Rydym wedi parhau i annog ein holl staff i ddiweddarau eu gwybodaeth ddemograffig ar ESR, gyda tharged cychwynnol o gyflawni 90% erbyn mis Mawrth 2024 (i fyny o 86.6% ym mis Mawrth 2023) erbyn diwedd y flwyddyn. Roedd y ffigur a gyflawnwyd ar gyfer mis Mawrth 2024 ar y targed sef 92.1%. Ein targed parhaus newydd yw cynnal y lefel uchel hon, ac erbyn mis Mawrth 2025 rydym wedi llwyddo i gynyddu hyn i 92.7%. Gweler Atodiad C (Data'r Gweithlu) am ragor o wybodaeth. Mae'n debygol bod hyn yn cynrychioli rhywbeth tebyg i'r uchafswm realistig o ystyried trosiant staff.

<p>dangosyddion Safon Cydraddoldeb Hiliol y Gweithlu (SCHGP);</p> <ul style="list-style-type: none"> - craffu ar ddata SCHGP i weithredu camau gweithredu gwrth-hiliol wedi'u targedu ar gyfer y gweithlu a gafwyd o fewn cynlluniau gweithredu gwrth-hiliol sefydliadol, mewn ymateb i sail dystiolaeth drwy newid strwythurol wedi'i dargedu 	<p>Un argymhelliad penodol yn SCHGP BIAP oedd gwella'r enillion ar gyfer staff uwch. Nid yw "Staff Uwch" wedi'i ddiffinio'n glir. Fodd bynnag, mae BIAP wedi gwella canran y staff hynny ar Fandiau Agenda ar gyfer Newid 8C ac uwch sy'n cwblhau'r wybodaeth hon o 85.7% (42/49) ym mis Mawrth 2024 i 94.3% (50/53) ym mis Mawrth 2025. Mae cyfraddau dychwelyd gwell a chywirdeb data yn sicrhau bod y wybodaeth sydd gennym yn adlewyrchu'n gywir y realiti o fewn y bwrdd iechyd, sy'n hanfodol i sicrhau y gellir targedu ymyriadau neu gynlluniau'n effeithiol.</p>
<p>Mynediad Cyfartal: Byddwn yn nodi ac yn chwalu rhwystrau sy'n atal mynediad teg at wasanaethau gofal iechyd i bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.</p>	

Cefnogi a goruchwylio cyfnod gweithredu Rhaglen Cymorth Diogelwch Mamolaeth a Newyddenedigol (2024-2027), gyda'r nod o gyflawni camau gweithredu lleol a chenedlaethol i gefnogi gwelliannau ym mhrofiadau a chanlyniadau menywod, babanod a'u teuluoedd o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig



Fel rhan o'u gwaith parhaus o amgylch y Rhaglen Cefnogi Diogelwch Mamolaeth a Newyddenedigol, mae'r tîm Gwasanaethau Mamolaeth ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi ennill Gwobr Rhagoriaeth Efydd gan Diverse Cymru am ei waith wrth symud ymlaen â'r ffordd y maent yn ymdrin ag amrywiaeth a chydreddoldeb yn y gweithle ar gyfer staff a chleifion. Teithiodd cynrychiolwyr o'r tîm i Gaerdydd ar gyfer Seremoni Wobrwyo a Diwrnod Dysgu yng Ngerddi Sophia i dderbyn eu gwobr, fel rhan o Gynllun Ardystio Diwylliannol Diverse Cymru 2024. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- Adolygiad o ddata cyffredinol y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym Mhowys i gael gwell dealltwriaeth o ethnigrwydd, iaith a chrefydd yn ein cymuned.
- Mae cyfryngau cymdeithasol, gwybodaeth a thafleuni gwasanaethau mamolaeth wedi cael eu hadolygu i wella cynhwysiant a chynrychiolaeth.
- Mae ap Language Line wedi'i osod ar ffonau a gliniaduron staff i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau dehongli gweledol.
- Cyfathrebu - Cylchlythyr Mamolaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant chwarterol yn trafod meysydd 'pwnc poeth' i rannu arfer da a diweddariadau yn y maes.

Symud Ymlaen: Ein Blaenoriaethau ar gyfer 2025-26

Rydym yn bwriadu gweithio ar bob un o'r Blaenoriaethau Strategol yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ystod 2025-26.

Fodd bynnag, mae gwaith penodol a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cynnwys

- Cyflwyno SignLive i leoliadau Gofal Sylfaenol.
- Cwblhau ein hadolygiadau o Recriwtio a Chadw Staff drwy lens Gwrth-Hiliol a gweithredu argymhellion sy'n deillio o'n hymchwiliad.
- Gwaith pellach ar amcan 5 i wella ein darpariaeth Aml-ffydd.
- Datblygu ac ehangu ymhellach ein cyfleoedd hyfforddi Cydraddoldeb lleol.
- Datblygu ac ehangu ymhellach ein Rhwydwaith Staff Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig.
- Sicrhau bod ein darpariaeth a'n canllawiau ynghylch cyfleusterau i'r un rhyw yn cydymffurfio ag argymhellion sy'n deillio o ddyfarniad diweddar y Goruchaf Lys ar ddiffiniad Rhyw yn y Ddeddf Cydraddoldeb.

Rhagor o wybodaeth

Mae mwy o wybodaeth am Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys ar gael drwy gysylltu â'r tîm (powys.equalityandwelsh@wales.nhs.uk). Cysylltwch â'r tîm hefyd os oes gennych unrhyw ymholiadau am weithgareddau unigol y soniwyd amdanynt yn yr adroddiad hwn.

Mae rhagor o wybodaeth am fentrau a chyflawniadau ehangach y bwrdd iechyd drwy gydol 2024-2025 i'w gweld yn yr adran [Adroddiadau Blynyddol](#) ar wefan y bwrdd iechyd.

Atodiad A: Adrodd a Dadansoddi ar y Bwlch Cyflog Rhwng Rhywiau

Sylwch: Mae'r holl wybodaeth yn yr adran hon yn adlewyrchu'r sefyllfa ar 31^{ain} Mawrth 2025.

Yn unol â deddfwriaeth y DU, fel sefydliad sydd â dros 250 o weithwyr, mae'n ofynnol i BIAP adrodd ar ei Fwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau, gan gynnwys y cyfraddau cyfartalog a chanolrif fesul awr a enillwyd gan ddynion a menywod.


Fel yr oedd ar y 31^{ain} Mawrth 2025, roedd y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys fel a ganlyn:

Rhywedd	Cyfartaledd Fesul Awr	Cyfradd	Canolrif Fesul Awr
Gwrywaidd	23.6990		20.1561
Benywaidd	19.6296		17.5048
Gwahaniaeth	4.0694		2.6513
Bwlch Cyflog %	17.1713		13.1538

O'n 2,522 o staff, mae 2,137 yn fenywod (85%) a 385 yn ddynion (15%). Mae hyn yn debyg iawn i sefydliadau eraill GIG Cymru, fodd bynnag, mae ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau o 17.2% ychydig yn uwch na chyfartaledd y DU (13.1% yn 2024), ond mae'n cymharu'n ffafriol â Byrddau Iechyd eraill GIG Cymru.

Mae'r [bwlch cyflog rhwng y rhywiau cyffredinol](#) yn y DU wedi dangos dirywiad hirdymor ers yr 1980au. Adroddodd BIAP am y tro cyntaf ar y Bwlch Cyflog Rhywiol yn 2019-20; mae'r ffigurau a adroddwyd bob blwyddyn ers y dyddiad hwnnw wedi bod yn gymharol debyg. Mae'r ffigur eleni o 17.2% bron yr un peth â'r llynedd (17.5%) a'r flwyddyn cyn hynny (17.7%).


(Noder: oherwydd niferoedd bach, yn y graff canlynol Bandiau 8D ac mae 9 wedi cael eu cyfuno)




Graff A: cyfran y dynion a'r menywod ym mhob Band Cyflog Agenda ar gyfer Newid, fel % o gyfanswm dynion a menywod ar fandiau cyflog Agenda ar gyfer Newid yn BIAP. Er enghraifft, mae 21.08% o'r dynion sy'n cael eu cyflogi gan y bwrdd iechyd ym Mand 2 ac mae 12.75% o fenywod ym Mand 7.

Oherwydd bod cyflogau a thelerau ac amodau bron pob aelod o staff yn cael eu pennu gan Agenda ar gyfer Newid a fframweithiau eraill sydd â rolau a bandiau cyflog a amlinellir yn llym, nid oes unrhyw reswm i awgrymu bod cyflog cyfartal (menywod yn cael eu talu llai na dynion i wneud yr un gwaith) yn broblem yn BIAP.


Yn hytrach, mae'r bwch cyflog rhwng y rhywiau yn ganlyniad i'r gwahaniaeth yn y math o rolau y mae dynion a menywod yn y bwrdd iechyd yn eu dal, fel y dangosir gan graffiau B a C isod. Er bod cynrychiolaeth dda gan fenywod ar bob lefel o'r sefydliad, mae'r ffaith bod dynion yn cael eu cynrychioli'n gymharol well ar lefelau uwch o'r sefydliad yn achosi'r bwch cyflog rhwng y rhywiau a arsylwyd. Mae rhai o'r rolau â chyflog llai yn y sefydliad yn cael eu cysylltu'n ystrydebol â menywod e.e. gweithiwr cymorth gofal iechyd, cynorthwyydd arlwyo, cynorthwy-ydd domestig. Fodd bynnag, yn y band cyflog isaf (Band 2), mae dynion mewn gwirionedd yn cael eu cynrychioli'n gymesur yn fwy na menywod (21.08% yn erbyn 19.78%).



Graff B: Rhywedd yn ôl gradd cyflog (cyfrannau cyfanswm)



Graff C: Rhywedd yn ôl gradd cyflog (rhifau absoliwt)



Graff D: Cyfradd gyfartalog o gyflogau fesul awr i ddynion a menywod, wedi'i drefnu yn ôl oedran.

Sylwadau Ychwanegol am y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau yn BIAP

- Mae menywod wedi’u cynrychioli’n dda ar bob lefel o’r sefydliad, gan gynnwys y Prif Swyddog Gweithredol presennol a’r Prif Swyddog Gweithredol blaenorol.
- Roedd adroddiadau blynyddol blaenorol yn cynnwys data recriwtio a oedd yn dangos bod menywod, ar gyfartaledd, yn fwy tebygol o gael eu gwahodd i gyfweliad na dynion ac yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus, o bosibl tystiolaeth o “fwlch hyder” (a ddogfennwyd mewn [amrywiol ffynonellau](#)) sy’n awgrymu bod dynion yn fwy tebygol na menywod o wneud cais am swyddi pan fyddant yn llai hyderus o lwyddiant.
- Dangosodd arolwg staff 2024 fod menywod yn BIAP (ac yn y GIG Cymru ehangach) wedi sgorio'n well na dynion ar bob cwestiwn yn ymwneud â gwahaniaethu, cynhwysiant a diwylliant tosturiol.
- Mae'n nodedig (Graff D) bod dynion a menywod yn cael eu talu symiau tebyg iawn yn y grwpiau staff ieuengaf (20-35), ond mae'r bwlch cyflog yn ehangu'n sylweddol wedi hynny, gan gyrraedd uchafbwynt o 51-55 cyn cau eto oherwydd bod incwm dynion yn

gostwng (oherwydd ymddeoliadau, yn ôl pob tebyg) yn hytrach na bod incwm menywod yn gwella.

- Gall hyn awgrymu y byddai disgwyl i'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ostwng yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n bosibl hefyd y gellir esbonio'r uchod trwy ddulliau gwahanol gyrfaedd ac ystyriaethau eraill (e.e. ymrwymadau teuluol). Oedran cyfartalog mam am y tro cyntaf yn y DU bellach yw 30.9 (ONS) a chanfu [papur CPP](#) fod menywod yn llawer mwy tebygol na dynion o weld eu gyrfaedd yn cael eu heffeithio gan gyfrifoldebau gofalu.
- Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau o 17.2% yn is na'r hyn a adroddir yn aml gan fyrddau iechyd (mwy) eraill Cymru. Mae'n debyg bod y cyferbyniad hwn yn adlewyrchu'r gyfran is o weithlu BIAP mewn proffesiynau meddygol (lle mae dynion yn cael eu cynrychioli'n fwy yn gyffredinol o'i gymharu â'r cyfartaledd mewn rolau eraill yn y GIG).

Atodiad B: Adrodd a Dadansoddi ar Gyflog Ethnigrwydd

Sylwch: Mae'r holl wybodaeth yn yr adran hon yn adlewyrchu'r sefyllfa ar 31^{ain} Mawrth 2025.


Nid oes gofyniad statudol i adrodd ar ethnigrwydd a chyflog. Fodd bynnag, mae BIAP wedi ymrwmo i adrodd hyn yn wirfoddol yn unol â'n Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliol Lleol (gweler uchod).

Ethnigrwydd	Cyfartaledd Fesul Awr	Cyfradd
Gwyn - DU	20.141686	
Gwyn - Arall	22.088326	
Nid yw'n Wyn	23.552724	

Allan o gyfanswm o 2,605 o staff, disgrifiodd 2,281 eu Grŵp Ethnig fel Gwyn a 86 fel grŵp di-Wyn; 228 arall yn anhysbys (naill ai am nad ydynt wedi llenwi'r ffurflen, neu oherwydd eu bod wedi dewis peidio â darparu'r wybodaeth hon).

Gyda'r anhysbysion wedi'u dileu, mae hyn yn dangos bod **4.04%** o'r corff staff o grwpiau ethnig lleiafrifol, gyda'r gweddill yn wyn.

Mae'r grwpiau hyn wedi'u rhannu yn ôl gradd cyflog fel a ganlyn:



Mae graff yn dangos cyfran y staff Gwyn yn erbyn Lleiafrifoedd Ethnig ym mhob Band Cyflog Agenda ar gyfer Newid, fel % o gyfanswm staff Gwyn neu Leiafrifoedd Ethnig.

Fel y dangosir yn y graff uchod, mae staff lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol na'u cyfoedion gwyn o fod ym Mand 5, ac yn llai tebygol o fod ym mandiau cyflog eraill.


Canfu dadansoddiad manwl o ddata'r gweithlu a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ariannol hon fod staff Duon a Lleiafrifoedd Ethnig wedi'u dosbarthu'n anwastad iawn ledled y gweithlu, gan ganolbwyntio ar feysydd a grwpiau staff penodol.

Atodiad C: Data'r Gweithlu




Sylwch: Mae'r holl wybodaeth yn yr adran hon yn adlewyrchu'r sefyllfa ar 31^{ain} Mawrth 2025.

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn cyflogi 2,605 o aelodau staff unigol parhaol, cynnydd o 2,522 yn 2024, gan barhau â thuedd o gynnydd graddol dros y blynnyddoedd diwethaf. Yn yr adran hon, mae'r staff hyn yn cael eu nodi yn ôl Nodweddion Gwarchoddedig Perthnasol (gweler uchod am Ryw/Rhywedd).

Gall rhai grwpiau bach gael eu huno neu eu cuddio yn y graffiau canlynol i gadw anhysbysrwydd.




Mae cynnydd cymharol yng nghyfran y staff yn rhai o'r categorïau hynaf wedi'i wrthbwyso gan gynnydd addawol yn nifer y staff yn rhai o'r categorïau ieuengaf.




SYLWCH: Yn y graffiau uchod, mae *Heb ei Nodi* yn golygu nad oes unrhyw wybodaeth yn cael ei chadw am yr unigolyn hwnnw (ni wnaethant lenwi'r elfen hon o'r ffurflen); Mae *Heb ei Ddatgan* a *Dewis peidio ag ateb* yn opsiynau ffurflen ar wahân ar gyfer anabledd.

Religious Belief



Crefydd / Religion



Yn y graff uchod, mae *Amhenodol* yn golygu nad oes unrhyw wybodaeth yn cael ei chadw ar yr unigolyn hwnnw (ni wnaethant lenwi'r rhan honno o'r ffurflen). Mae *Crefydd Arall* yn golygu eu bod wedi dewis disgrifio eu crefydd fel 'Arall'. Mae *Arall (Penodedig)* yn golygu bod yr unigolyn wedi dewis crefydd benodol a enwir, ond prin iawn yw'r unigolion a ddewisodd yr un grefydd ac er mwyn cadw anhysbysrwydd unwyd y grwpiau hyn. Y dewisiadau penodol eraill ar y ffurflen yw Jainiaeth, Iddewiaeth a Sikhiaeth.

O'i gymharu â'r llynedd, bu gostyngiad pellach yn nifer a chanran yr ymatebion "amhenodol" ym mhob categori:

Categori	2023-24		2024-25	
Tarddiad Ethnig	199	7.9%	185	7.1%

Anabledd	413	16%	Dirwy yw'r gosb yn dilyn collfarn.	12.7%
Cyfeiriadedd Rhywiol	362	14.5%	94.	12.0%
Cred Grefyddol	366	14.5%	99.	12.1%

Mae hyn yn debygol o fod oherwydd ymdrechion parhaus yn ystod y flwyddyn i gynyddu cyfraddau cwblhau data a wnaed fel rhan o'r cynllun gweithredu Gwrth-Hiliol. Er bod yr ymdrechion hyn wedi'u targedu at y rhai nad oedd eu hethnigrwydd wedi'i nodi, mae'n debygol y byddai data arall ar goll gan yr unigolion hyn hefyd ac y byddent wedi llenwi'r holl feysydd data coll wedyn. Mae'r ffaith bod y gyfradd isaf ar gyfer ethnigrwydd yn awgrymu bod rhai cyfranogwyr wedi diweddarau'r maes hwn yn unig, er y gallai hefyd awgrymu bod pobl yn teimlo'n hapusach yn datgelu eu hethnigrwydd yn hytrach na phriodoleddau "cudd" anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a chred grefyddol.

Nodyn ar Ddata:

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn defnyddio'r system ESR i gasglu a storio'r data hwn, nad yw'n cadw data ar Ailbennu Rhywedd neu Feichiogrwydd a Mamolaeth. Mae'r data hefyd yn debygol iawn o gael ei ddylanwadu gan strwythur a chyfyngiadau'r system ESR. Er enghraifft, mae'r gallu i nodi ethnigrwydd rhywun fel 'Gwyn Cymreig/Seisnig/Albanaidd' yn ychwanegiad cymharol ddiweddar; efallai na fydd staff sydd wedi bod yn y sefydliad ers amser maith wedi cael eu hysgogi gyda'r opsiynau hyn. Mae'n debygol bod hyn yn esbonio'r gyfran sylweddol uwch sy'n nodi fel 'Gwyn Prydeinig' o'i gymharu â'r ffigurau mewn ffynonellau eraill e.e. gwybodaeth am y Cyfrifiad.